

POLICE AND CRIME PANEL
PANEL HEDDLU A THROSEDD



Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru

Dydd Llun, 19 Ionawr 2015 at 2.00 pm
Bodlondeb, Conwy

RHAGLEN

1. **Ymddiheuriadau am absenoldeb**
2. **Datgan cysylltiad: Cod Ymddygiad Llywodraeth Leol**
Caiff yr Aelodau eu hatgoffa bod yn rhaid iddynt ddatgan **bodolaeth a natur** eu cysylltiadau personol.
3. **Materion Brys**
Rhybudd o faterion a ddylai, ym marn y Cadeirydd, gael eu hystyried yn y cyfarfod fel rhai brys yn unol.
4. **Cofnodion** (Tudalennau 1 - 9)
Cymeradwyo a llofnodi cofnodion y cyfarfod diwethaf fel cofnod cywir
5. **Ystyried adroddiadau gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru:**
 - a) Gwrandawriad Cadarnhau ar gyfer Prif Weithredwr Dros Dro a Swyddog Monitro (Tudalennau 10 - 17)
 - b) Lefel Arfaethedig y Praesept Plismona - Cyflwyniad gan Gomisiynydd yr Heddlu, Winston Roddick (Tudalennau 18 - 19)
 - c) Praesept a Threth y Cyngor 2015/16 (Tudalennau 20 - 31)
 - d) Comisiynydd Heddlu a Throsedd a Phrif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru - Cynllun Ariannol Tymor Canolig 2015-16 i 2018-19 (Tudalennau 32 - 55)
 - e) Cynllun Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru – Ail Ddiwygiad, Mawrth 2015 (Tudalennau 56 - 77)

6. Ystyried adroddiadau gan yr Awdurdod Cynnal

- a) Crynodeb o'r cwynion sydd wedi dod i law (Tudalennau 78 - 79)
- b) Sut mae Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd yn craffu ar berfformiad yr Heddlu yn erbyn Amcanion Cynllun Heddlu a Throsedd (Tudalennau 80 - 144)
- c) Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru (Tudalennau 145 - 147)

7. Dyddiad y cyfarfod nesaf:

Dydd Llun, 9 Mawrth 2015 @ 2.00 pm

Aelodau'r Panel

Cyng Amanda Bragg
Cyng Glenys Diskin (Cadeirydd)
Cyng Bob Dutton OBE
Cyng Philip C. Evans Y.H.
Cyng Julie Fallon
Cyng William T. Hughes
Cyng Dilwyn Morgan
Cyng Colin Powell
Cyng Bill Tasker
Cyng Gethin Williams (Is-Gadeirydd)

Cyngor Sir y Fflint
Cyngor Sir y Fflint
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wreccsam
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Cyngor Sir Ynys Mon
Cyngor Gwynedd
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wreccsam
Cyngor Sir Ddinbych
Cyngor Gwynedd

Patricia Astbury
Timothy Rhodes

Aelod Annibynnol Cyfetholedig
Aelod Annibynnol Cyfetholedig

PANEL HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU

Dydd Llun, 15 Rhagfyr 2014, am 2.00 pm
Bodlondeb, Conwy

YN BRESENNOL: Cynghorydd Glenys Diskin (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr: Amanda Bragg, Bob Dutton,
Philip C. Evans Y.H., Julie Fallon, William T Hughes,
Dilwyn Morgan, Colin Powell a Gethin Williams

Aelod Lleyg/ Aelod Cyfetholedig Pat Astbury a Tim Rhodes

Swyddogion: Ken Finch (Cyfarwyddwr Strategol (Democrataidd a'r Amgylchedd)), Iwan Siôn Gareth (Cyfieithydd) a Dawn Hughes (Uwch Swyddog Gwasanaethau Pwyllgor)

Hefyd yn bresennol: Stephen Hughes (Dirprwy Brif Weithredwr Dros Dro, Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd), Kate Jackson (Prif Swyddog Cyllid, Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd), Winston Roddick CB QC (Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru) a Julian Sandham (Dirprwy Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd)

Yn absennol: Y Cynghorydd: Bill Tasker

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Dilwyn Morgan, yr Aelod newydd o Gyngor Gwynedd.

Cyflwynodd Gomisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru Stephen Hughes, Dirprwy Brif Weithredwr Dros Dro- Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd; byddai gwrandawriad cadarnhad swyddogol y penodiad hwn yn cael ei gynnal yng nghyfarfod nesaf Panel yr Heddlu a Throsedd ar 19 Ionawr 2015.

134. **YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan Richard Jarvis (Cyfreithiwr – Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy) ac Anna Humphreys (Prif Weithredwr – Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd).

135. **DATGAN CYSYLLTIAD: COD YMDDYGIAD LLYWODRAETH LEOL**

Datganodd y Cynghorydd Julie Fallon gysylltiad personol gan fod ei gŵr yn Swyddog yr Heddlu gyda Heddlu Gogledd Cymru.

136. **MATERION BRYS**

Dim

137. **COFNODION**

Cyflwynwyd cofnodion Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru a gynhaliwyd ar 15 Medi 2014 i'w cymeradwyo.

Cofnod 127 – Adroddiadau Arolygu Arolygiaeth Cwnstabiliaeth Ei Mawrhydi: Hysbysodd Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd y Panel y dylai'r cofnod nodi: '... bod gwall gweinyddol o ran cofnodi digwyddiadau a throsteddau; dylai bod y materion wedi'u cofnodi fel trosteddau ar unwaith pan eu hatgyfeiriwyd i Uned Gwarchod y Cyhoedd; yn hytrach nag ar ôl eu harchwilio'.

Mewn perthynas â'r papur ynglŷn â gwaith partneriaeth, adroddodd Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd y byddai adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Panel ym mis Mehefin 2015.

Hysbysodd Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd y Panel fod y cwynion mewn perthynas â blog 'Thoughts of Oscar' wedi'u hatgyfeirio at Gomisiwn Cwynion Annibynnol yr Heddlu (IPCC), a ganfu dim achos i'w ateb ac eu hatgyfeirio yn ôl at Heddlu Gogledd Cymru i'w datrys yn lleol; roedd archwiliadau'r cwynion hyn yn y camau uwch yn awr.

138. **DIWEDDARIAD CYFNODOL GAN GOMISIYNYDD YR HEDDLU A THROSEDD**

Cyflwynodd Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd ei adroddiad diweddar i Banel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru, oedd yn arddangos sut yr oedd wedi cyflawni ei brif swyddogaeth o graffu Heddlu Gogledd Cymru (HGC).

Ystadegau Trosteddau

Cyfeiriodd y Comisiynydd at gywirdeb ystadegau trostedd a'r data. Hysbyswyd Panel yr Heddlu a Throsedd fod Arolygiaeth Cwnstabiliaeth Ei Mawrhydi (HMIC) wedi nodi bod 94% o'r trosteddau a gofnodwyd gan HGC yn cael eu cofnodi'n gywir. Felly, casglodd Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd y gellir dibynnu ar yr ystadegau a ddarperir gan HGC, fel ffurf o graffu.

Mewn perthynas ag ystadegau dad-drosedd (digwyddiad a gofnodwyd fel trostedd i ddechrau, ond wedi hynny canfuwyd nad oedd yn drosedd), canfu'r HMIC fod 79% o benderfyniadau dad-drosedd gan HGC yn gywir.

Hysbysodd Dirprwy Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd y Panel ei fod wedi mynychu dau gyfarfod Grŵp Defnyddwyr Cofnodi Trostedd yr Heddlu, oedd yn trafod yr argymhellion yn adroddiadau arolygu'r HMIC ac wedi gofyn am fwy o fanylion ynglŷn â phenderfyniadau dad-drosedd. Er mwyn delio â'r argymhellion, roedd HGC wedi lleihau nifer yr unigolion sydd ag awdurdod i wneud penderfyniadau dad-drosedd a byddai pecyn hyfforddiant yn cael ei gytuno'n ddiploma'n cynnwys hyfforddiant mewn

dosbarth ac un i un. Yn y cyfamser, byddai Cofrestrydd Trosedd a Digwyddiad yr Heddlu yn goruchwyllo'r holl benderfyniadau dad-droseddu. Gofynnodd Dirprwy Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd i Aelodau'r Panel anfon e-bost ato ynglŷn ag unrhyw bryderon sydd ganddynt mewn perthynas â phenderfyniadau o'r fath.

Holodd y Panel os oedd penderfyniadau dad-droseddu'n cael eu rhannu gyda'r dioddefwr/ y sawl a gyflwynodd y cwyn. Er yn y rhan fwyaf o achosion roedd deialog drwy gydol yr archwiliad, byddai'n rhaid i Ddirprwy Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd wirio os mai dyma'r achos ar gyfer pob un. Amlygodd Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd ddatblygiad 'Track my Crime', oedd yn wasanaeth ar-lein yn galluogi dioddefwyr troseddau fonitro cynnydd yr archwiliadau perthnasol.

Adroddodd Dirprwy Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd yn dilyn canlyniadau trosedd newydd ym mis Ebrill 2014, roedd cymhariaeth lefel uwch wedi'i chyflawni i nodi sut yr oedd cyfraddau datgelu'n cymharu â'r system flaenorol. Roedd troseddau â dioddefwyr yn parhau i fod tua 28.8%, fodd bynnag, byddai Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd yn parhau i fonitro'r sefyllfa.

Cynllunio ar gyfer y Nadolig

Cadarnhaodd Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd fod pob Prif Arolygwyr chwe sir Gogledd Cymru wedi gosod cynlluniau plismona a diogelwch cymunedol i ymdrin â throseddau'n ymwneud ag alcohol dros gyfnod y Nadolig. Roedd hyn yn cynnwys bugeiliaid stryd, marsialiaid tacsï, atgyfnerthu rheoleiddio eiddo trwyddedig (gwiriadau staff drws a phrofion prynu) a gwiriadau gyrru dan ddylanwad alcohol.

Cynghorodd Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd y Panel ynglŷn â'r canlynol hefyd:

- Prosiect Wylfa Newydd – Byddai cytundebau Adran 106 yn cael eu datblygu i liniaru effaith y datblygiad ar ddiogelwch.
- A470 Dolgellau – roedd HGC yn cefnogi cyflwyno cylchfan i'r rhan hon o'r ffordd, oherwydd nifer o farwolaethau diweddar. Roedd y Comisiynydd wedi ysgrifennu at Lywodraeth Cymru yn cadarnhau ei gefnogaeth tuag at gyflwyno mesurau ychwanegol, er mwyn gwneud ffyrdd Cymru yn ddiogelach.
- Lleihau trosedd – byddai HGC yn gweithio'n galed iawn ar weithrediad sy'n cynnwys yr Heddlu cyfan i leihau troseddau yn ystod y misoedd nesaf.
- Bygythiad ISIS – Byddai'r Prif Gwnstabl yn diweddarau'r Panel ynglŷn â datblygiadau diweddar.
- Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant – roedd y Comisiynydd wedi cynnal cyfarfod yn Abertawe yn ddiweddar, oedd yn cynnwys holl Arweinwyr/Cyrff Diogelwch Plant. Pwrpas y cyfarfod oedd gwella'r gallu i ganfod ac ymdrin â Chamfanteisio'n Rhywiol ar Blant. Gofynnodd y Comisiynydd saith cwestiwn perthnasol i'r Arweinwyr, fyddai'n derbyn gwahoddiad i fynychu cyfarfod yn y Flwyddyn Newydd i ddarparu atebion i'r cwestiynau hynny.

- Seremoni Gwobrau Cymunedol y Comisiynydd – Cynhaliwyd y Seremoni Wobrwyo ar 23 Hydref 2014 gan ddatlu ymroddiad a chyfraniad cymunedau ac unigolion ar draws Gogledd Cymru. Roedd y cymunedau a'r partneriaid yn falch o'r digwyddiad.
- Carchar Gogledd Cymru – disgwylir y byddai'r carchar yn garchar categori C, gyda lle ar gyfer 2106 o garcharorion. Ar hyn o bryd roedd gan Ogledd Cymru tua 700 o garcharorion Categori C ar unrhyw adeg, gyda rhwng 100-200 o garcharorion ar remand. Mewn perthynas ag adnoddau ar gyfer y carchar, roedd HGC wedi nodi gofyniad cyllid o £52mil o gyllid cyfalaf a £21mil o gyllid refeniw; mae'n debyg y byddai angen o leiaf dau Gwnstabl yr Heddlu neu bedwar ar y mwyaf fel rhan o'r staff yn y carchar.

Adroddodd Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd ei fod wedi cynnal cynhadledd ar gyfer y Trydydd Sector ar 10 Rhagfyr 2014. Roedd 65 wedi mynychu'r gynhadledd o sefydliadau'r trydydd sector lle'r oedd trosedd a phlisma'n effeithio ar eu gwaith yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol. Trafododd Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd ei rôl a blaenoriaethau plisma ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod a darparu gwybodaeth ynglŷn â chomisiynu gwasanaethau cefnogi troseddwr yng Ngogledd Cymru. Gofynnwyd i'r Trydydd Sector am eu sylwadau ynglŷn â blaenoriaethau'r Comisiynydd ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod a byddai adroddiad yn cael ei gynhyrchu cyn bo hir.

Cynghorodd y Comisiynydd hefyd ei fod yng nghanol adolygu ei Gynllun Heddlu a Throsedd ac ymestynnwyd y cyfnod ymgynghori tan y 7 Ionawr 2015.

Diolchodd y Panel i Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd am ei ddiweddariad a thrafodwyd y canlynol:

- Llongyfarchodd y Panel y Comisiynydd ar lwyddiant y Seremoni Wobrwyo a chydabod effaith gadarnhaol y gwobrau ar y derbynwyr.
- Holodd y Panel pam nad oedd ystadegau trosedd yn cynnwys twyll ac os oes ffigyrau o'r fath yn cael eu casglu ar wahân. Gan fod mesuryddion twyll yn anodd eu datgelu'n fanwl gywir, nid oedd ystadegau trosedd cenedlaethol yn cynnwys twyll. Byddai'r Comisiynydd yn archwilio os oedd ystadegau twyll ar gael ar gyfer Gogledd Cymru.
- Holodd y Panel am yr anomaleddau yn % y ffigyrau a gofnodwyd ar gyfer lladradau yng Ngogledd Cymru yn adroddiad diweddaru Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd. Eglurodd y Comisiynydd fod y tablau ar dudalen 5 ei adroddiad, yn ymwneud ag ystadegau a gyhoeddwyd gan Swyddfa'r Ystadegau Cenedlaethol ar gyfer y flwyddyn ddaeth i ben ym mis Mehefin 2014, tra bo'r ffigyrau ar ben tudalen 5 yn ymwneud â'r flwyddyn hyd yn hyn. Roedd gostyngiad sylweddol o 16.3% o ladrata o anheddau eleni, a gostyngiad o 14% o ladrata o eiddo nad yw'n annedd.
- Canlyniadau Trosedd Newydd – holodd y Panel ynglŷn â diffiniad y categori 'Terfyn Amser wedi Gorffen' (rhif 17 ar y tabl ar dudalen 4

Tudalen 6

adroddiad diweddarau'r Comisiynydd). Byddai'r Comisiynydd yn adrodd yn ôl ynglŷn â diffiniad y categori hwn.

- Cod Ymddygiad Dioddefwyr – cyflwynodd y Panel gais fod y cymorth cof a roddwyd i'r holl staff gweithredol yn cael ei anfon at holl Aelodau'r Panel er gwybodaeth.
- Cyfraddau ymateb i ymgynghoriad – cadarnhaodd Dirprwy Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd fod cyfraddau ymateb wedi codi'n sylweddol, oherwydd y cyflwyniadau dilynol a gynhaliwyd gyda grwpiau/sefydliadau penodol.

Mynegwyd pryder hefyd ynglŷn ag anawsterau cysylltu â Swyddogion lleol yr Heddlu (yn enwedig yn y Waun) a'r dull o blismona yn y gymdogaeth. Roedd cymunedau'n teimlo'n rhwystredig nad oedd ganddynt Swyddog penodol i gysylltu â nhw ac i rannu gwybodaeth leol. Awgrymwyd hefyd efallai nad oedd pryderon/digwyddiadau a adroddwyd i Swyddogion lleol yr Heddlu yn cael eu cofnodi.

Mewn ymateb, cydnabu'r Comisiynydd fuddion plismona yn y gymdogaeth a rhannu gwybodaeth leol a byddai'n trafod y pryderon, yn enwedig o ran y Waun, gyda'r Prif Gwnstabl ac yn adrodd yn ôl i Aelod y Panel (y Cynghorydd Bob Dutton). Yn ogystal â hyn, byddai'r Comisiynydd yn archwilio'r weithdrefn ar gyfer cofnodi pryderon/digwyddiadau a adroddwyd gan drigolion i Swyddogion lleol yr Heddlu,

PENDERFYNWYD-

(a) Bod Panel yr Heddlu a Throsedd yn nodi'r penderfyniadau a'r camau gweithredu a gymerwyd gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd, a'r wybodaeth a ddarparwyd yn ei adroddiad diweddarau.

(b) Bod Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd yn cyflawni'r canlynol:

- **Cadarnhau os yw penderfyniadau dad-droseddu'n cael eu rhannu gyda'r dioddefwr / y sawl sy'n cyflwyno'r cwyn.**
- **Cadarnhau os oes ystadegau twyll ar gael ar gyfer Gogledd Cymru.**
- **Darparu diffiniad o'r categori 'Terfyn Amser wedi Gorffen'**
- **Bod y cymorth cof a roddwyd i'r holl staff gweithredol mewn perthynas â Chod Ymddygiad Dioddefwyr yn cael ei anfon at holl Aelodau'r Panel er gwybodaeth.**
- **Trafod anawsterau cysylltu â Swyddogion lleol yr Heddlu (yn enwedig yn y Waun) gyda'r Prif Gwnstabl ac yn adrodd yn ôl i Aelod y Panel (y Cynghorydd Bob Dutton).**
- **Archwilio'r weithdrefn ar gyfer cofnodi pryderon/digwyddiadau a adroddwyd gan drigolion i Swyddogion lleol yr Heddlu,**

139. CYMHARIAETH O GYLLIDEB SWYDDFA COMISIYNYDD YR HEDDLU A THROSEDD

Darparodd y Prif Swyddog Cyllid wybodaeth i Banel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru ynglŷn â sut yr oedd cyllideb Swyddfa Comisiynydd yr

Heddlu ar gyfer Gogledd Cymru yn cymharu â chyllideb cyn Awdurdod yr Heddlu a sefydliadau tebyg.

At ddibenion cymharu gyda Swyddfeydd Comisiynwyr eraill yr Heddlu, defnyddiwyd ffigyrau a gyflwynwyd gan Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth yn y ffurflenni ystadegol, gan eu bod wedi'u cyflawni'n safonedig.

Mae'r cymariaethau'n dangos fod costau Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu Gogledd Cymru'n gymharol isel, a'r ail isaf yn y Grŵp o Heddluoedd Tebyg. Ar ben hynny, er mai Heddlu Gogledd Cymru yw'r ail fwyaf yng Nghymru, roedd costau Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd yr isaf yng Nghymru.

Cadarnhaodd Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd fod gan y Swyddfa gyflenwad llawn o staff, gyda 10.5 cyfwerth â llawn amser a bod y Swyddfa yn y broses o dendro ar gyfer ymgynghorydd Cysylltiadau Cyhoeddus.

PENDERFYNWYD-
Nodi'r adroddiad.

140. **DIWEDDARIAD AR GYLLIDEB 2014/15 (FEL YR OEDD AR 30 MEDI 2014)**

Cyflwynodd y Prif Swyddog Cyllid adroddiad diweddar ar y gyllideb 2014/15 i Banel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru.

Hysbyswyd y Panel ar 30 Medi 2014, mai cyfanswm yr amcanestyniad hyd at ddiwedd y flwyddyn oedd tanwariant net o £0.360m.

Er y disgwylir i'r gwariant fod yn eithaf agos at y gyllideb, roedd rhagamcan o sawl achos o danwario a gorwario, gyda'r rhai mwyaf sylweddol yn ymwneud â gorwario gweithwyr o £0.627m a thanwario eiddo o £0.298. Fodd bynnag, mae'n debyg y byddai costau eiddo wedi gorwario erbyn diwedd y flwyddyn ariannol, oherwydd nifer o eitemau oedd angen eu hatgyweirio er mwyn gwella cyflwr yr ystâd a thrwy leihau'r rhestr o waith atgyweirio.

Mewn perthynas â'r rhagamcan o danwariant o £0.351m yng nghyllideb Fforensig, cadarnhaodd y Prif Swyddog Cyllid mai'r rheswm dros hyn oedd bod arferion gweithio newydd wedi'u cyflwyno.

Hysbysodd y Prif Swyddog Cyllid y Panel hefyd fod ganddi fynediad llawn at yr holl wybodaeth sydd ei angen arni, ei bod yn cyfarfod gyda Swyddogion yn rheolaidd i drafod rhagamcanion cyllidebol ac yn mynychu'r Bwrdd Gweithredol Strategol.

PENDERFYNWYD-
Nodi'r adroddiad.

141. **ADOLYGIAD O AELODAETH Y PANEL HEDDLU A THROSEDD**

Cyflwynodd Gyfarwyddwr Strategol (Democratiaeth a'r Amgylchedd) adroddiad, oedd yn hysbysu Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru ynglŷn ag adolygiad a gynhaliwyd ynglŷn ag aelodaeth y Panel, gan ystyried y newidiadau yng nghyfansoddiad gwleidyddol Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam.

Mae Panel yr Heddlu a Throsedd yn cynnwys 10 Aelod Etholedig a 2 Aelod Annibynnol, bydd Aelodau Etholedig y Panel, cyn belled ag sy'n ymarferol, yn adlewyrchu cydbwysedd gwleidyddol a demograffig cymunedol Gogledd Cymru.

Oherwydd ymddiswyddiad 10 aelod etholedig o'r Grŵp Llafur ar Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, mae'r Awdurdod Cynnal wedi adolygu'r aelodaeth, sy'n ystyried gweithredu methodoleg d'hondt.

Er na fydd nifer yr Aelodau sy'n cael eu penodi gan bob Cyngor yn newid, roedd dadansoddiad seddau ar gyfer dau o'r grwpiau gwleidyddol wedi newid o ganlyniad. Roedd y canlyniad yn awgrymu bod y grwpiau ar gyfer Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Gwynedd ac Ynys Môn yn aros fel y maent ar hyn o bryd, ond y byddai'n rhaid i Wrecsam newid eu Haelodau enwebedig o 1 Llafur ac 1 Annibynnol i 2 Annibynnol.

Er bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam wedi enwebu'r Cynghorydd David Griffiths i gymryd lle y Cynghorydd Colin Powell, byddai'r Cynghorydd Colin Powell yn parhau yn aelod o Banel yr Heddlu a Throsedd nes y bydd y Swyddfa Gartref wedi cymeradwyo'r newid.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Cynghorydd Powell ar ran y Panel am y cyfraniad sylweddol a wnaeth i Banel yr Heddlu a Throsedd.

Diolchodd Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd i'r Cynghorydd Powell am ansawdd a safon uchel y gwaith craffu.

PENDERFYNWYD-

- (a) Bod Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru yn cydnabod bod aelodaeth y Panel yn cydymffurfio â'r gofyniad i gynrychioli pob rhan o ardal yr heddlu ac yn cynrychioli cyfansoddiad gwleidyddol yr Awdurdodau Lleol perthnasol pan gymerir hwy gyda'i gilydd.**
- (b) Bod y canlyniad a awgrymir ym mharagraff 2.6 yr adroddiad yn cael ei gymeradwyo a bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn newid eu Haelodau enwebedig o 1 Llafur ac 1 Annibynnol i 2 Annibynnol.**
- (c) Bod y Cynghorydd Colin Powell yn parhau'n aelod o'r Panel nes bo'r Swyddfa Gartref yn cymeradwyo enwebiad y Cynghorydd David Griffiths.**

142. **YMATEB I YMCHWILIAD GAN Y PWYLLGOR AR SAFONAU MEWN BYWYD CYHOEDDUS - PLISMONA LLEOL - ATEBOLRWYDD, ARWEINYDDIAETH A MOESEG**

Cyflwynodd Gyfarwyddwr Strategol (Democratiaeth a'r Amgylchedd) ymateb i ymchwiliad gan y Pwyllgor ar Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus ar Blismona Lleol - atebolrwydd, arweinyddiaeth a moeseg i Banel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru.

Roedd copi drafft o'r ymateb wedi'i gyflwyno i'r Pwyllgor, gan mai dyddiad cau'r ymholiad oedd 30 Tachwedd 2014. Byddai unrhyw newidiadau a wnaed gan Banel yr Heddlu a Throsedd yn cael eu hanfon ymlaen at y Pwyllgor wedi hynny.

PENDERFYNWYD-

Bod Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru yn cefnogi'r ymateb i ymchwiliad gan y Pwyllgor ar Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus ar Blismona Lleol - atebolrwydd, arweinyddiaeth a moeseg.

143. **GWEDDARLLEDU CYFARFODYDD**

Cyflwynodd y Gyfarwyddwr Strategol (Democratiaeth a'r Amgylchedd) adroddiad yn gofyn i Banel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru ystyried a ddylai cyfarfodydd Panel yr Heddlu a Throsedd gael eu gweddarlledu.

Roedd y Panel wedi ystyried yr adroddiad hwn yn ei gyfarfod ar 2 Mehefin 2014, fodd bynnag roedd y Panel wedi cytuno i ohirio'r mater nes bod aelodaeth lawn y Panel yn bresennol.

Ystyrir gweddarlledu cyfarfodydd, yn enwedig rhai yn ymwneud â'r gyllideb, y praesept a'r cynllun heddlu a throsedd, fel modd o wella eglurder a mynediad cyhoeddus i gyfarfodydd.

Amlygwyd risgiau gweddarlledu yn yr adroddiad ac roedd yn cynnwys ariannu'r system yn y dyfodol. Er bod yr Awdurdod Cynnal wedi caffael system gweddarlledu gan ddefnyddio cyllid grant gan Lywodraeth Cymru; dim ond ar gyfer cynllun peilot o 2 flynedd ydoedd hwn; felly efallai na fyddai'r cyfleusterau ar gael i Banel yr Heddlu a Throsedd pan ddaw'r peilot i ben.

Cytunodd Panel yr Heddlu a Throsedd i gefnogi cyflwyno gweddarllediad o'r cyfarfodydd, yn amodol ar adolygiad ar ôl 12 mis.

PENDERFYNWYD-

Bod cyfarfodydd Panel yr Heddlu a Throsedd yn cael eu gweddarlledu yn y dyfodol ac y cynhelir adolygiad ar ôl 12 mis.

144. **RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL PANEL HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU**

Cyflwynwyd rhaglen waith i'r dyfodol ddrafft ar gyfer 2014/15 a 2015/16 i Banel yr Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru.

Byddai angen cynnwys adroddiad Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd ynglŷn â Gwaith Partneriaeth ar gyfer mis Mehefin 2015.

PENDERFYNWYD-

Cymeradwyo Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol ar gyfer 2014/15 a 2015/16, yn amodol ar drefnu adroddiad Gwaith Partneriaeth ar gyfer Mehefin 2015.

145. **DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF:**

Bydd cyfarfod nesaf Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru ddydd Llun 19 Ionawr 2015 am 2.00pm.

Gofynnodd Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd i'r Panel ystyried os gellir symud cyfarfodydd y Panel o ddydd Llun, oherwydd goblygiadau materion gweithredol allai effeithio ar ddyddiadur Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd.

Er bod Panel yr Heddlu a Throsedd yn deall anawsterau'r Comisiynydd, oherwydd nifer o ymrwymadau/llwyth gwaith Aelodau'r Panel, dydd Llun oedd y diwrnod mwyaf cyfleus i bawb fod yn bresennol.

PENDERFYNWYD-

Bod cyfarfodydd Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru yn parhau i gael eu cynnal ar ddydd Llun.

(Daeth y cyfarfod i ben am 3.20 pm)

Cynghorydd Glenys Diskin
Cadeirydd
Panel Heddlu a Throsedd
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Bodlondeb
Conwy LL32 8DU

Ein Cyf:-WR/mm

5 Ionawr 2015

Annwyl Gynghorydd Diskin

Gwrandawriad Cadarnhau Prif Weithredwr

Mae Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011 yn nodi, o dan adran 1(9) bod yn rhaid i'r comisiynydd heddlu a throsedd hysbysu'r Panel Heddlu a Throsedd perthnasol o bob penodiad arfaethedig gan y comisiynydd o brif weithredwr ar gyfer swyddfa'r comisiynydd.

Ysgrifennaf felly i ofyn i gyfarfod o'r Panel Heddlu a Throsedd ystyried fy enwebiad ar gyfer y swydd statudol o brif weithredwr am gyfnod dros dro yn ystod cyfnod mamolaeth.

Y meini prawf yr ydw i wedi'i ddefnyddio i benderfynu ar fy enwebiad yw:

- 1. Prawf o allu i fy nghynorthwyo i ddarparu fy nyletswyddau statudol**
- 2. Prawf o allu i fy narparu â chyngor proffesiynol er mwyn fy ngalluogi i gyflawni fy rôl**
- 3. Unigolyn a allai arwain SCHTh**
- 4. Unigolyn sy'n parchu ac yn deall fy safbwyntiau fel comisiynydd heddlu a throsedd**

Credaf fod Stephen Hughes yn bodloni'r meini prawf.

- 1.** Mae gan Stephen dros 11 mlynedd o brofiad o weithio i Heddlu Gogledd Cymru. Ers 2009 mae wedi bod â chyfrifoldeb rheolaethol am gyllideb fawr ac wedi cefnogi'r heddlu i ddarparu ei amcanion strategol. Mae ganddo brofiad o arwain prosiectau a newidiadau yn llwyddiannus. Roedd yn gyfrifol am sicrhau contract cenedlaethol i'r Heddlu sy'n golygu incwm o hyd at £0.5m y flwyddyn i'r Heddlu

ac yn fwy diweddar fe gynorthwyodd â'r gwaith o sicrhau bod yr Heddlu yn cyflawni eu targedau arbedion.

2. Mae Stephen wedi cydweithio ochr yn ochr â'r awdurdodau lleol a phartneriaid eraill o fewn y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol ers chwe blynedd, rôl y derbyniodd Ganmoliaeth gan Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol Sir Ddinbych amdani. Mae ganddo brofiad o adnabod anghenion lleol Gogledd Cymru a darparu gwasanaethau er mwyn bodloni'r anghenion hynny ac mae'n deall yn llawn y pwysigrwydd o adeiladu partneriaethau effeithiol.

3. Yn ystod ei gyfnod gyda Heddlu Gogledd Cymru mae Stephen wedi rheoli ac arwain timau. Bydd ei ffocws clir a'i brofiad o reolaeth perfformiad a chyllidebau o gymorth mawr i mi.

4. Mae'n bwysig i mi fod gennyf rywun yn y rôl hon y gallaf ddibynnu arnynt i arwain y staff ac i fy narparu ag arweiniad proffesiynol. Credaf fod gan Stephen y sgiliau, gwybodaeth a phrofiad angenrheidiol ac rwy'n hyderus iawn y bydd yn gallu cyflawni'r rôl hon mewn modd effeithiol.

Yng nghyfarfod diwethaf y panel ar 16 Medi fe hysbysais y panel y byddwn yn recriwtio dirprwy brif weithredwr dros dro y byddai disgwyl iddynt weithredu fel prif weithredwr tra bod y prif weithredwr presennol ar gyfnod mamolaeth.

Cynhaliwyd proses recriwtio agored er mwyn adnabod ymgeisydd cymwys. Lluniwyd disgrifiad swydd y dirprwy brif weithredwr gan y prif weithredwr a'r dirprwy gomisiynydd heddlu a throsedd. Cyhoeddwyd hysbyseb ar gyfer y swydd (Atodiad A) ym mis Awst yn y Daily Post, ar wefan SCHTh a HGC ac roedd yn cynnwys dyddiad cau o 12 Medi 2014. Tynnwyd sylw at yr hysbyseb hefyd drwy e-bost i randdeiliaid a thrwy gyfryngau cymdeithasol. Roedd yr hysbyseb yn nodi mai swydd dros dro oedd hon fel dirprwy brif weithredwr a bod disgwyliad y byddai'r ymgeisydd llwyddiannus yn gweithredu fel prif weithredwr. Roeddwn i felly'n chwilio am rywun a allai gyflawni'r ddwy rôl.

Cynhaliwyd y cyfweiliadau ar 3 Hydref 2014. Derbyniais 11 o geisiadau am y swydd a lluniwyd rhestr fer yn cynnwys enwau 5 o bobl. Cafodd y rhestr fer ei llunio gan aelodau'r panel gan ystyried disgrifiad y swydd. Roedd y panel cyfweld yn cynnwys y prif weithredwr, y dirprwy gomisiynydd heddlu a throsedd, asesydd annibynnol o adran adnoddau dynol yr heddlu a minnau. Fe wnaethom gyfweld tri o bobl gan i ddau o'r ymgeiswyr dynnu eu henwau yn ôl cyn y cyfweiliad.

Gofynnwyd cyfres o gwestiynau i ymgeiswyr am y rôl yr oeddent yn ymgeisio amdani yn ogystal â chwestiynau am eu profiad gwaith blaenorol. Roedd y cwestiynau wedi eu cynllunio i gasglu tystiolaeth am eu gallu i gyflawni'r rôl hon. Cytunodd y panel yn unfrydol mai Stephen Hughes oedd yr ymgeisydd cryfaf ac y dylid cynnig y swydd iddo.

Rwy'n amgáu â'r llythyr hwn y disgrifiad swydd llawn ar gyfer rôl y Prif Weithredwr er wybodaeth ac yn gofyn i chi ystyried fy nghynnig i benodi Stephen Hughes i'r swydd prif weithredwr a swyddog monitro dros dro .

Disgwyliaf am eich ymateb i fy nghais.

Cofion cynnes.

Yn gywir




Winston Roddick CB QC
Comisiynydd Heddlu a Throsedd

amg

Atodiad A – Hysbyseb Swydd

Atodiad B – Disgrifiad Swydd a Manylion yr Unigolyn.



Mae Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru yn bwriadu penodi Dirprwy Brif Weithredwr i gynorthwyo'r Prif Weithredwr gyda'u dyletswyddau.

Cyflog: £44, 970 - £49, 825 y.f.

Bae Colwyn

Mae cyfle cyffrous wedi codi ar gyfer unigolyn uchel eu cymhelliant sy'n meddu ar sgiliau cyfathrebu rhagorol i ddarparu gwasanaeth cynllunio strategol lefel uchel ac arweinyddiaeth ar gyfer Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd. Swydd dros dro am 12 mis yw hon.

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn gweithredu fel Dirprwy Brif Weithredwr yn Swyddfa'r Comisiynydd a bydd hyn yn cynnwys cyflawni rôl dirprwy swyddog monitro. Dylai ymgeiswyr fod yn ymwybodol y bydd yn ofynnol iddynt lenwi dros Dy Prif Weithredwr yn ystod cyfnod o absenoldeb dros dro ac y bydd y cyflog yn codi bryd hynny i adlewyrchu'r cyfrifoldebau ychwanegol. Bydd rhagor o fanylion Dyngylch y dyletswyddau a'r cyflog yn ystod absenoldeb y Prif Weithredwr yn cael eu trafod yn ystod y cyfweiliad.


Mae sgiliau Cymraeg Lefel 3 yn hanfodol ar gyfer y swydd hon.

Am ddisgrifiad llawn o'r swydd a ffurflen gais ewch i wefan Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru www.northwales-pcc.gov.uk neu cysylltwch â'r Adran Recriwtio ar 01492 804699.

Anfonwch ffurflenni cais yn ôl i :
Recriwtio
Pencadlys Heddlu Gogledd Cymru
Glan y Don
Bae Colwyn, LL29 8AW

Dyddiad cau : 12 Medi 2014

Mae swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd wedi ymrwymo'n llwyr i egwyddorion cydraddoldeb ac amrywiaeth ac rydym yn croesawu ceisiadau gan bob carfan o'r gymuned. Dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 dylai deiliaid swyddi roi gwybod i'r unigolyn cyswllt yn y Rhanbarth/Adran am unrhyw addasiadau rhesymol angenrheidiol.



The Police and Crime Commissioner for North Wales intends to appoint a Deputy Chief Executive to assist the Chief Executive in carrying out their responsibilities.

Salary: £44, 970 - £49, 825 p.a.

Colwyn Bay

An exciting opportunity has arisen for a highly motivated individual, who possesses excellent communication skills, to provide high level strategic planning and leadership for the Office of the Police & Crime Commissioner. This is a temporary position for 12 months.

The successful candidate will act as a Deputy Chief Executive within the Office, which includes the role of deputy monitoring officer. Candidates should be aware that during this temporary position there will also be a requirement to act up in to the position of Chief Executive Officer to cover a period of absence temporarily, which will attract the relevant uplift in salary. Further details of this acting opportunity, duties and salary will be discussed at interview.


Level 3 Welsh language skills are essential for this post.

A full post profile and application form are available from the Police and Crime Commissioner's website www.northwales-pcc.gov.uk or contact the Recruitment Department on 01492 804699.

Please return completed applications to :
Recruitment
North Wales Police Headquarters
Glan y Don
Colwyn Bay, LL29 8AW

Closing date : 12 September 2014

The Office of the Police and Crime Commissioner is totally committed to the principles of equality and diversity and welcomes applications from all sections of the community. Under the Equality Act 2010 post holders should advise the Divisional/Departmental HR contact of any required reasonable adjustments.



DISGRIFIAD SWYDD

Teitl y Swydd:	Prif Weithredwr a Swyddog Monitro
Yn Atebol i:	Comisiynydd Heddlu a Throsedd
Tîm:	Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd - 9
Cyflog:	£75,000

Crynodeb o'r Swydd

- Cydweithio â'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd er mwyn galluogi darpariaeth y weledigaeth, y strategaeth a'r blaenoriaethau perthnasol.
- Sicrhau arweinyddiaeth weithredol a strategol Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd drwy reolaeth ac ymgysylltiad parhaus.
- Hwyluso archwiliadau manwl gywir a phriodol o weithgareddau'r Heddlu.

Perthnasau Gwaith Allweddol

- Y Comisiynydd Heddlu a Throsedd a'r Dirprwy Gomisiynydd
- Prif Swyddogion Cyllid
- Yr Holl staff a gyflogir gan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd
- Yr Heddlu, yn enwedig y Prif Gwnstabl a'r Uwch Swyddogion
- Y Panel Heddlu a Throsedd
- Cymunedau Gogledd Cymru
- Rhwydwaith plismona ehangach Cymru a Gogledd Orllewin Lloegr
- Sefydliadau perthnasol y Llywodraeth, cymdeithasau a phartneriaid strategol y sector cyhoeddus.

Cyfrifoldebau Swyddogaethol, Rheoli ac Arweinyddiaeth Allweddol

- Sicrhau darpariaeth cyngor priodol i'r Comisiynydd.
- Arwain datblygiad parhaus a darpariaeth gweithgareddau a gweithdrefnau SCHTh
- Darparu arweinyddiaeth glir ac amlwg i staff SCHTh gan gynnwys cyfrifoldeb am eu datblygiad parhaus a'u hyfforddiant a chydweithio'n uniongyrchol â'r CHTh mewn perthynas â'r amcanion personol a datblygiad.
- Sicrhau bod SCHTh yn cyflawni ei ddyletswyddau a'i gyfrifoldebau tuag at gydraddoldeb ac amrywiaeth yn unol â deddfwriaethau perthnasol a'u bod yn hyrwyddo'r ymrwymiad i gydraddoldeb ac amrywiaeth ym mhopeth y bydd SCHTh yn ei wneud.
- Ar y cyd â'r Prif Swyddog Cyllid, sicrhau priodoldeb ym musnes y Comisiynydd gan gynnwys gwneud trefniadau priodol ar gyfer gweithdrefnau tendro a gosod contractau.

- Cyflawni dyletswyddau'r Prif Weithredwr a benodwyd o dan Ddeddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011 er mwyn galluogi a chynorthwyo'r SCHTh i gyflawni ei holl swyddogaethau yn effeithiol ac yn effeithlon.
- Cyflawni dyletswyddau a chyfrifoldebau statudol Pennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig a'r Swyddog Monitro.

Cynllunio Strategaeth ac Adnoddau

- Meddwl yn strategol ac arwain SCHTh i ddatblygu gweledigaeth a strategaeth glir ac effeithiol ar gyfer y tymor hir, ynghyd â pholisïau priodol.
- Ar y cyd â'r prif swyddog(ion) cyllid, arwain datblygiad strategol SCHTh ym meysydd cyfrifeg strategol, rheoli gwybodaeth, rheoli risgiau strategol, y strategaethau adnoddau dynol a dysgu a datblygu gan sicrhau bod SCHTh yn cydymffurfio â'r deddfwriaethau cyflogaeth presennol.
- Bod yn Arweinydd Strategol mewn perthynas â gwaith partneriaeth.
- Ar y cyd â'r prif swyddog(ion) cyllid, goruchwyllo'r gwaith o gynllunio ariannol ac agweddau rheoli cyllideb, adnoddau ac asedau'r SCHTh.
- Gyrru gweithrediad strategaethau corfforaethol SCHTh a'i fusnes o ddydd i ddydd gan sicrhau bod trefniadau llywodraethu effeithiol yn eu lle er mwyn galluogi SCHTh i fonitro, adolygu a gwella'i berfformiad ei hun.
- Cefnogi SCHTh i archwilio perfformiad yr Heddlu a chefnogi gwelliant parhaus yn SCHTh ac yn yr Heddlu.
- Paratoi SCHTh ar gyfer arolygiadau gan y cyrff archwilio perthnasol.
- Drwy ymgynghoriad priodol â'r Comisiynydd etholedig, datblygu proses gynllunio tymor byr, canolig a hirdymor ar gyfer dyfodol SCHTh.

Comisiynu a Darparu Gwasanaeth

- Sicrhau ymgysylltiad effeithiol ac effeithlon â phartneriaid mewnol ac allanol a budd-ddeiliaid mewn perthynas â chomisiynu a darparu gwasanaeth a lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol.
- Bod yn atebol am berfformiad SCHTh ym mhob agwedd o gomisiynu.
- Sicrhau ymgysylltiad effeithiol â'r Prif Gwnstabl a holl staff perthnasol yr heddlu wrth gynllunio a rheoli busnes SCHTh.
- Sicrhau bod SCHTh yn cyfrannu at ystyriaethau cenedlaethol o ran materion sy'n ymwneud â phlisma a rheoli busnes SCHTh. Cynrychioli SCHTh mewn cyfarfodydd ar lefel uchel gyda'r Swyddfa Gartref, Arolygiaeth Heddluoedd Ei Mawrhydi, Cymdeithas Comisiynwyr Heddlu a Throsedd, Cymdeithas Llywodraeth Leol a chyrff allanol eraill ar lefel ranbarthol a chenedlaethol.

Ymgysylltiad a Gwybodaeth

- Darparu, adolygu a gwella perfformiad yn erbyn y strategaeth gwybodaeth ym meysydd cyfathrebu, ymgysylltiad ac ymgynghoriad.
- Sicrhau bod asesiadau o anghenion strategol effeithiol yn cael eu hymgymryd â nhw sy'n arddangos dealltwriaeth y cymunedau a wasanaethir gan alluogi aliniad cyllidebau a blaenoriaethu effeithiol.

- Rhoi a dosbarthu gwybodaeth berthnasol a chyngor i SCHTh er mwyn eu galluogi i herio perfformiad strategol ac ariannol yr Heddlu ble bo hynny'n briodol.
- Cefnogi SCHTh i godi ei broffil a chyfathrebu ei werthoedd, strategaethau, cyflawniadau a safbwyntiau.
- Cynrychioli a hyrwyddo buddiannau'r SCHTh drwy ddatblygu a chynnal partneriaethau strategol effeithiol â sefydliadau'r sector cyhoeddus/preifat/gwirfoddol yn y gymuned leol ac mewn cymdeithasau cenedlaethol a rhanbarthol.
- Datblygu a gweithredu ymgysylltiad cyfathrebu dwyffordd effeithiol â phob carfan o'r gymuned.

Craffu a Pherfformiad

- Cyfrannu at ddarpariaeth effeithiol ac effeithlon y Cynllun Heddlu a Throsedd, ynghyd ag unrhyw gynlluniau gweithredu cysylltiedig.
- Datblygu a chynnal perthynas waith adeiladol â'r Panel Heddlu a Throsedd ar gyfer yr ardal.
- Sicrhau gweithrediad effeithiol ac effeithlon swyddogaethau archwilio mewnol ac allanol ac unrhyw agweddau eraill o reolaeth fewnol neu arolygon allanol.
- Goruchwyllo a sicrhau bod cwynion yn cael eu rheoli'n effeithiol ac yn effeithlon.

MANYLEB YR UNIGOLYN

Addysg/Hyfforddiant

- Gradd a/neu gymhwyster proffesiynol priodol neu dystiolaeth o'r sgiliau deallusol sy'n gysylltiedig ag addysg ar y lefel hon.
- Ymrwymiad i ddatblygiad personol parhaus
- Dymunol – MBA neu gymhwyster rheoli ôl-raddedig arall
- Dymunol – Cymhwyster cyfreithiol

Sgiliau/Gallu/Gwybodaeth

- Y gallu i feddwl yn annibynnol ac yn strategol, gan gymryd safbwynt hirdymor.
- Gallu i feithrin parch swyddogion a chydweithwyr ar bob lefel, yn fewnol ac yn allanol gyda phartneriaid a budd-ddeiliaid.
- Profiad o arweinyddiaeth, y gallu i ysgogi eraill, gweledigaeth a meddwl yn flaengar
- Sgiliau llysgenhadol effeithiol – y gallu i gynrychioli'r Comisiynydd gydag amrywiaeth eang o fudd-ddeiliaid a charfanau o'r gymuned.
- Gallu i feithrin a datblygu strategaethau corfforaethol a'u troi yn weithredoedd effeithiol
- Gallu i ddirprwyo gweithredoedd a chyfrifoldebau mewn modd priodol, wrth sicrhau nad yw canlyniadau a gweithgareddau'r Comisiynydd yn cael eu cyfaddawdu.
- Tystiolaeth o ymwybyddiaeth a sensitifrwydd wleidyddol ddatblygedig, darbwyllodeb, gallu i drafod, rheoli a sgiliau personol.
- Y gallu i gyfathrebu'n effeithiol yn ysgrifenedig ac ar lafar ag amrywiaeth o gynulleidfaoedd – meddu ar steil personol dynamig sy'n sicrhau ymgysylltiad.
- Dealltwriaeth a gwerthfawrogiad o'r heriau sy'n wynebu plismona gan gynnwys amgylchedd gwleidyddol Gogledd Cymru, yr Heddlu a'r budd-ddeiliaid perthnasol.
- Gallu i gydbwysu gwahanol anghenion, dadansoddi gwybodaeth berthnasol a datblygu strategaethau a chynlluniau a fydd yn cyflawni gweledigaeth y Comisiynydd.
- Lefel uchel o sgiliau rheoli perfformiad
- Lefel uchel o sgiliau llythrennedd, rhifedd, sgiliau dadansodol ac agwedd greadigol tuag at ddatrys problemau
- Gallu i ddelio â materion cymhleth yn gyflym ac yn adeiladol

- o Gallu i weithio o dan bwysau
- o Dealltwriaeth o a pharch tuag at y broses ddemocrataidd a sut mae cyrff anweithredol yn gweithredu
- o Gwybodaeth uwch o becynnau Microsoft Office a dealltwriaeth o'r we gan gynnwys cyfryngau cymdeithasol.

Profiad / hanes blaenorol

- o Profiad o weithio ar lefel uwch reoli
- o Hanes blaenorol o reoli newid yn llwyddiannus a darparu gwell perfformiad
- o Ymrwymiad gweithredol tuag at degwch ac amrywiaeth a thuag at safonau uchel o ymddygiad proffesiynol.
- o Tystiolaeth o waith partneriaeth swyddogol, y gallu i ddylanwadu a darparu.
- o Profiad o reolaeth ariannol ar lefel strategol ynghyd â phrofiad o reolaeth cyllidebol llwyddiannus.
- o Profiad o chwarae rhan uniongyrchol mewn polisiau ar lefel corfforaethol / datblygiad strategaethol.
- o Tystiolaeth o drawsnewid dyheadau strategol tymor hir yn gynlluniau gweithredu a rheoli gweithrediad y cynlluniau hyn gan eu hadolygu a'u newid yn ôl yr angen.

Arall

- o Parodrwydd a gallu i weithio y tu allan i oriau swyddfa yn ôl yr angen
- o Mwynhau'r her o newid, datblygu a gwella.
- o Bod â steil gadarn ond diplomyddol sy'n gallu adeiladu consensws a pherthnasau oesol ac sy'n dod â lefelau priodol o urddas i'r penodiad
- o Mae'r gallu i siarad Cymraeg yn un o ofynion y swydd.

Ymddygiadau Allweddol

Mae'r galluoedd fydd yn cael eu mesur wedi'u rhestru isod:

Arweinyddiaeth / Rheolaeth

Unigolyn sy'n defnyddio ei allu'n effeithiol ac sy'n arwain eraill drwy roi arweiniad a ffocws ac sy'n rhoi cefnogaeth ac ysgogiad er mwyn cyflawni nodau sefydliadol.

Persbectif Strategol

Edrych ar faterion yn eang er mwyn gallu cyflawni nodau'r sefydliad. Meddwl ymlaen ac yn paratoi ar gyfer y dyfodol drwy greu strategaethau effeithiol. Mae gan yr unigolyn hwn ymwybyddiaeth o'r 'darlun mawr' er mwyn cynorthwyo gweithrediad prosiectau.

Pendantrwydd ac Atebolrwydd

Gwneud penderfyniadau mewn modd prydlon a dewr, yn sefyll wrth y penderfyniadau hynny, yn edrych ar gynnydd, yn disgwyl cael ei ddal yn atebol ac yn osgoi dwysâd diangen.

Cyfathrebu

Cyfleu negeseuon i amrywiaeth o gynulleidfaoedd mewn modd clir, cryno a rhesymegol.

Trafod a dylanwadu

Dylanwadu, darbwylllo neu greu argraff ar eraill mewn modd sy'n achosi derbyniaeth, cytundeb neu newid ymddygiad.

Lefel Arfaethedig y Praesept Plismona

Cyflwyniad gan Gomisiynydd yr Heddlu, Winston Roddick

Un o'm blaenoriaethau pennaf yw gosod y praesept blynyddol, sef y rhan honno o gyllideb yr heddlu a godir o drethi lleol. Mae'n rhaid wedyn rhoi hyn gerbron y panel heddlu a throredd er cymeradwyaeth. Lefel y praesept fydd yn pennu faint yn union o gyllid fydd ar gael i Heddlu Gogledd Cymru ar gyfer plismona gogledd Cymru. Mae'r praesept yn hollbwysig o ran ansawdd, effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd plismona yng ngogledd Cymru, fel y mae hefyd o ran gallu Heddlu Gogledd Cymru i gadw gogledd Cymru yn lle diogel i fyw ac i weithio .

Er mwyn galluogi'r Prif Gwnstabl i ddarparu gwasanaeth effeithiol ac effeithlon a chadw gogledd Cymru'n ddiogel, rwy'n cynnig y dylid cynyddu'r praesept 3.44% ar gyfer 2015/16 , sef £7.83 y flwyddyn a 15c yr wythnos ar eiddo band D.

Rwyf wedi cael trafodaethau hir gyda'r Prif Gwnstabl ynghylch effeithiau'r toriadau llym tu hwnt ar ei allu i ddarparu gwasanaeth plismona effeithiol ac i gyflawni f'amcanion heddlu a throredd i. Rydym ein dau yn credu y bydd y gyllideb hon yn ei alluogi ef i wneud hyn er gwaethaf y toriadau, ond bydd yn her enfawr. Wrth benderfynu ar 3.44% ystyriais y materion canlynol:

Yr hinsawdd economaidd bresennol

2015/16 fydd y bumed flwyddyn yn olynol o doriadau llym i Heddlu Gogledd Cymru. Torrwyd £19.6 miliwn dros y 4 blynedd ddiwethaf. Torrwyd grantiau 18% dros yr un cyfnod. Mae pob un o'r pleidiau gwleidyddol wedi ymrwymo i leihau diffyg blynyddol y genedl dros y Senedd nesaf a dywedir wrthym nad ydym ond hanner ffordd yno. Mae'n debygol iawn felly y bydd toriadau ar lefel debyg yn cael eu gwneud eto dros y pedair blynedd nesaf.

Lefel y grantiau a ddyrennir i ogledd Cymru.

Roedd grantiau'r Llywodraeth yn cyfrif am ychydig llai na 55% o'r cyllid hollgynhwysfawr ar gyfer 2014/15. Yn 2015/16 cafwyd toriad o 5.1% (£3.940 miliwn) - gostyngiad o 1.9 % yn fwy na'r 3.2% yr oedd Heddlu Gogledd Cymru wedi meddwl fyddai'n cael ei wneud. Roedd y rhan fwyaf o'r 1.9% ychwanegol hwnnw ar gyfer ariannu mentrau'r Swyddfa Gartref gyda'r gweddill yn doriad yn y swm sylfaen a ddosberthir i'r ardaloedd Plismona. Yn ystod haf 2014 dywedodd y Swyddfa Gartref y gellid disgwyl peth cynnydd mewn brigdorri, felly codwyd y rhagdybiaeth gynllunio ar gyfer y toriadau o 3.2% i 4.7% mewn paratoad ar gyfer hyn. Ar sail hyn, gan gydbwysu'r toriadau y byddai'n rhaid eu gwneud yn erbyn cynnydd gochelgar, roeddwn wedi disgwyl pennu codiad o 2.95% yn Nhreth y Cyngor. Fodd bynnag gyda'r toriad ychwanegol yn y grant ac eto gan ystyried yr arbedion a wnaed hyd yma ac sydd angen eu gwneud eto, rwyf wedi gorfod cynnig cynnydd o 3.44% yn Nhreth y Cyngor, sef £235.44 i eiddo Band D. Mae hyn yn swm ychwanegol blynyddol o £1.26 o gymharu â chynnydd o 2.95%.

Costau cynyddol plismona a'r galw cynyddol ar adnoddau'r Heddlu.

Erbyn hyn mae galwadau newydd ar yr heddlu, megis ymateb i'r bygythiad terfysgol uwch, troseddau seiber a cham-fanteisio'n rhywiol ar blant. Yn sgil hyn gwelwyd pwysau cynyddol ar feysydd Diogelu'r Cyhoedd, Troseddau Seiber a Thrwyddedu Drylliau Tanio y bu'n rhaid mynd i'r afael ag ef yn 2015/16 gyda pheth o'r arian yn dod o arbedion.

Fel pawb arall mae gwasanaeth yr heddlu'n wynebu chwyddiant. Mae wedi'i gadw i'r isafswm o fewn y gyllideb ond mae cost y gwasanaeth TG cenedlaethol er enghraifft wedi codi 22%.

Lefel y Cronfeydd Wrth Gefn.

Adolygwyd y rhain. Nid yw eu defnydd i 'atgu'r' gyllideb yn gynaliadwy ond bydd eu defnydd gochelgar i gynnal a gwella'r ystâd ac i sicrhau y gellir parhau i recriwtio ar adeg pan fydd niferoedd heddluoedd yn lleihau yn diogelu dyfodol plismona yng ngogledd Cymru.

Gofynnais i mi fy hun hefyd faint fyddai'n swm rhesymol o dreth i'w gynnig yng ngoleuni'r galw cynyddol ar y gwasanaeth, y gostyngiad yn yr adnoddau sydd ar gael i'r gwasanaeth allu ymateb i'r galwadau hynny a'r angen i osod cyllideb gynaliadwy a sefydlog ar gyfer 2015/16 a'r blynyddoedd i ddod.

Yn seiliedig ar y rhagdybiaethau a nodir yn y papurau perthnasol, bydd angen i'r Heddlu dorri £15.5 miliwn eto dros y pedair blynedd nesaf gyda £4.448 miliwn o hwn yn dod o gyllideb 2015/16. Mae'r llinell flaen wedi'i diogelu cyn belled â phosibl, ond po fwyaf o doriadau a wneir, y mwyaf tebygol yw hi y byddant yn effeithio ar wasanaethau rheng flaen. Mae'r praesept yr wyf yn ei gynnig yn gosod her anodd i'r prif gwnstabl o ran gwneud arbedion effeithiolrwydd ond hefyd yn rhoi digon o adnoddau i ddarparu gwasanaeth plismona ymarferol yn ystod y flwyddyn nesaf a'r blynyddoedd i ddod.

Teitl:	Praesept a Threth y Cyngor 2015/16
Cyfarfod:	Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru, 19 Ionawr 2015
Awdur:	Kate Jackson, Prif Swyddog Cyllid

1. Cyflwyniad

1.1 Mae'r adroddiad hwn yn adolygu sefyllfa ariannol Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru ac yn gwneud argymhellion ar gyfer treth y cyngor a phraesept 2015-16.

2. Argymhellion

2.1 Cynyddu'r praesept i £66,673,511

- ydd hyn yn golygu cynnydd o 3.44% yn nhreth y cyngor, sydd gyfwerth â £235.44 y flwyddyn - cynnydd o £7.83 y flwyddyn neu 15c yr wythnos ar gyfer eiddo Band D. B

- ae hyn yn gynydd o 4.01% ar 2014/15 M

2.2 Nodi bod angen gwneud toriadau o £4.448 miliwn yn 2015/16; mae'r rhain wedi'u hadnabod

2.3 Nodi'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig, sy'n cynnwys y rhagdybiaethau canlynol:

- bydd Treth y Cyngor yn cynyddu 3.5% yn 2016/17 a 2.5% yn 2017/18 a 2018/19 Y
- bydd grantiau plismona yn gostwng 4% ym mhob blwyddyn Y
- bydd newidiadau i gyfraniadau yswiriant gwladol cyflogwyr yn dod i rym yn 2016/17 ac y disgwylir mai effaith hyn fydd gostyngiad grant pellach o 3.7% Y

3. Crynodeb o Gyllideb 2015/16

	£miliwn	
Cyllideb 2014-15	<u>141.204</u>	
Chwyddiant	3.080	+2.18%
Gofyniad Cyllidol 2015-16	<u>144.284</u>	
Cyfanswm Nawdd Amgangyfrifedig 2015/16		
Grantiau'r Llywodraeth (52% o nawdd)	73.162	-5.11%
Treth y Cyngor	£227.61	+3.44%
wedi'i luosi â Sylfaen y Dreth	£283,187	+0.55%
Praesept (45% o nawdd)	66.674	+4.01%
Cyfanswm nawdd fydd ar gael	<u>139.836</u>	-0.97%
Toriadau Angenrheidiol	4.448	

4 Eitemau Statudol

4.1 Ansawdd y Wybodaeth

- 4.1.1 Mae'n rhaid i'r Prif Swyddog Cyllid (PSC), yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 2003 (a5), wneud sylwadau ar briodoldeb yr wybodaeth a ddefnyddir fel sail i benderfyniadau cyllidol. Mae'r PSC yn cadarnhau bod y ffigyrau yn yr adroddiadau amrywiol yn gynnyrch gweithdrefnau sy'n parhau i gael eu gweithredu i'r safonau proffesiynol uchaf. Mae'r systemau hyn yn cael eu harchwilio yn fewnol ac yn allanol ac nid yw'r archwiliad allanol erioed wedi cyflwyno unrhyw amod. Felly ym marn y PSC mae'r wybodaeth hon yn addas i'r pwrpas
- 4.1.2 Dan yr un Ddeddf mae'n ofynnol i'r Prif Swyddog Cyllid wneud sylwadau ynghylch digonoldeb y cronfeydd. Ym marn y Prif Swyddog Cyllid bydd y gronfa gyffredinol yn parhau i fod yn ddigonol i ddiwallu anghenion gweithredol dydd i ddydd yr Heddlu. Mae'r cronfeydd wedi'u hadolygu a rhoddir rhagor o fanylion ym mharagraff 10.

5. Cefndir

- 5.1 Bydd toriadau o £19.653m wedi'u gwireddu dros 4 blynedd Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant 2010 (ACW2010). Mae arian grant wedi gostwng 18% dros y pedair blynedd a chyfanswm incwm o'r praesept wedi cynyddu 14.5% dros yr un cyfnod; mae hyn wedi arwain at ostyngiad termau real o 13.5% yn y gyllideb gyfan. Mae'r tabl isod yn dangos y toriadau a wnaed hyd yma:

Blwyddyn	2011/12	2012/13	2013/14	2014/15	Total
Toriadau	£4.678m	£6.016m	£4.634m	£4.325m	£19.653m

- 5.2 Mae'r ffaith mai dim ond o tua hanner y swm angenrheidiol y llwyddwyd i leihau'r diffyg cenedlaethol blynyddol dros y pedair blynedd diwethaf wedi cael llawer o gyhoeddusrwydd. Roedd y diffyg blynyddol yn £159 biliwn yn 2010/11 ac mae'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol yn rhagdybio ffigwr o £91bn yn 2014/15. Mae'r etholiad cyffredinol ym Mai 2015 yn creu ansicrwydd, ond mae pob parti gwleidyddol yn datgan eu bod yn bwriadu 'mantoli'r llyfrau' dros gyfnod y senedd nesaf. Bydd hyn yn golygu toriadau ychwanegol i wasanaeth yr heddlu dros y pedair blynedd nesaf sy'n debygol o fod ar raddfa debyg i'r pedair blynedd ddiwethaf.

6. Yr Amgylchedd Cynllunio

- 6.1 Mae'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig (CATC) atodedig yn amlinellu'r amgylchedd cynllunio. Mae'n cynnwys ffigyrau'r blynyddoedd blaenorol ynghyd a rhagamcanion ar gyfer incwm a gwariant refeniw a chynlluniau ar gyfer cronfeydd cyfalaf a chronfeydd wrth gefn.
- 6.2 Adeg setliad 2014/15 nid oedd unrhyw gyhoeddiad wedi'i wneud ynghylch Dyraniad Nawdd y Llywodraeth darpariaethol ar gyfer 2015/16. Fodd bynnag roedd yn amlwg y byddai toriadau'n parhau dros gyfnod y senedd nesaf o leiaf. Yn ystod 2014/15 sefydlodd y Bwrdd

Cynllunio Strategol, sy'n cael ei gadeirio gan y Prif Gwnstabl, broses ar gyfer adnabod a gwireddu arbedion yn ystod y cyfnod 2015/16 hyd 2017/18.

- 6.3 Dynododd y Bwrdd Cynllunio Strategol 22 o ffrydiau gwaith cychwynnol o gyfuniad o waith oedd eisoes ar y gweill a meincodi, er enghraifft proffiliau gwerth am arian AHM. Gwnaed yr argymhellion terfynol ar 15 Medi 2014; mae trosolwg byr i'w weld yn adran 8 o'r adroddiad hwn.
- 6.4 Yn ychwanegol at adnabod yr arbedion angenrheidiol, ymgwymerwyd â'r broses arferol ar gyfer pennu anghenion ariannol y dyfodol a cheir eglurhad manylach yn y CATC. Cymerwyd y canlynol i ystyriaeth wrth ddatblygu'r CATC:
- Blaenoriaethau lleol a chenedlaethol fel y'i pennir yn y Cynllun Heddlu a Throsedd, y Gofyniad Plismona Strategol a'r Cynllun Gweithredu 2015/16
 - Pwysau newydd ac ac sy'n dechrau dod i'r amlwg
 - Y broses gynllunio strategol
 - Strategaethau eraill yr heddlu
 - Yr hinsawdd economaidd bresennol
 - Y sefyllfa ariannol bresennol
 - Amcangyfrif o'r adnoddau sydd ar gael
 - Rhagolygon cyllidebol ar gyfer y cyfnod, yn cynnwys dyfarniadau cyflogau
 - Y rhaglen gyfalaf, y Cod Ariannol a'r effaith ar y gyllideb refeniw
 - Cronfeydd wrth gefn a balansau
 - Cynhyrchu incwm, gweithgareddau masnachu a grantiau
 - Cydweithio
- 6.5 Torrwyd cyfanswm o £4.325m o gyllideb 2014/15 o gymharu â chyllideb y flwyddyn ariannol flaenorol. Mae'r toriadau hyn yn cael eu gwireddu yn unol â'r cynllun a'r rhacamcaniad presennol yw y bydd y gyllideb yn gytbwys ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.
- 6.6 Bob blwyddyn bydd AHM a Swyddfa Archwilio Cymru yn adolygu'r Heddlu a'i sefyllfa ariannon gyffredinol, ei brosesau cynllunio a'i arbedion ariannol; mae rhagor o fanylion wedi'u cynnwys yn y CATC. Nodwyd fod yr heddlu hyd yn hyn wedi llwyddo i ddiogelu gwasanaethau rheng flaen a niferoedd swyddogion cyn belled ag yr oedd bosibl, a bod cyfran uwch o arbedion heb fod yn rhai staff wedi'u gwneud o gymharu â'r sefyllfa yn genedlaethol, ond bod gwneud hyn yn dod yn fwyfwy anodd.

7. Dyroniadau Nawdd

- 7.1 Adeg setliad 2013/14 nid oedd y unrhyw Ddyroniadau Nawdd y Llywodraeth darpariaethol ar gyfer 2015/16 wedi eu rhoi, er yn dilyn adolygiad gwariant mini y Canghellor ym Mehefin 2013 cyhoeddodd y Swyddfa Gartref y byddai'r gyllideb blismona yn cael ei thorri 4.9% mewn termau real, a oedd, ar ôl ystyried chwyddiant, gyfwerth a gostyngiad arian parod o 3.2%. Cymerwyd y byddai'r toriad hwn yn cael ei basio i'r ardaloedd plismona felly dyma oedd y toriad rhagamcannol a ddefnyddiwyd yng Nghynllun Ariannol Tymor Canolig 2014/15.
- 7.2 Yn ystod yr haf cadarnhaodd trafodaethau anffurfiol gyda'r Swyddfa Gartref mai'r rhagdybiaeth gynllunio oedd yn cael ei defnyddio ganddynt oedd gostyngiad arian parod o 3.2% yng nghyllidebau'r heddluoedd yn ystod 2015/16. Fodd bynnag, bryd hynny nid oedd

yn hysbys y byddai cyllid ychwanegol yn cael ei gadw ar gyfer 'dyraniadau canolog' (brigdorri). Roedd toriad ychwanegol o 1.5% eisoes wedi'i wneud yn 2014/15, gyda'r disgwyliad y byddai'n afresymol gwneud toriadau o'r fath eto yn 2015/16. Yn ystod yr haf, yr arwyddion a roddwyd oedd y byddai cynnydd tebyg mewn brigdorri eto yn 2015/16; cafodd hyn ei gynnwys yn y rhagamcanion ar gyfer y dyfodol a oedd yn cael sylw gan y Bwrdd Cynllunio Strategol.

7.3 Ar 17 Rhagfyr 2014 cyhoeddodd yr Ysgrifennydd Cartref a'r Gweinidog dros Blismona, Cyfiawnder Troseddol a Dioddefwyr y dyraniadau nawdd ar gyfer pob ardal blismona. Prif bwyntiau'r cyhoeddiad oedd:

- Gostyngiad arian parod o 5.1% sydd gyfwerth â gostyngiad mewn grant o £3.940m. Mae'r toriad yn gyfuniad o'r gostyngiad sylfaen mewn grantiau y mae'r Swyddfa Gartref wedi'i drosglwyddo i'r ardaloedd plismona a 'brigdorri' ychwanegol er mwyn noddi mentrau'r Swyddfa Gartref.
- Mae'r gostyngiad sylfaen gyfwerth â £2.621m i Heddlu Gogledd Cymru. Cynyddodd y rhagdybiaeth gynllunio o 3.2% i 3.4%. Y rheswm dros y newid hwn, yn ôl tîm technegol Cymdeithas Trysoryddion y Comisiynwyr Heddlu a Throsedd yw:
Adeg Rownd Gwariant 2013 roedd yr heddlu'n disgwyl toriadau o 3.2% mewn termau arian parod yn 2015/16 a oedd ar y pryd gyfwerth â 4.9% mewn termau real. Mae'r Swyddfa Gartref wedi diweddarau'r datchwyddwyr a ddefnyddir, felly, tra bo'r toriad termau real yr un fath, sef 4.9%, y toriad arian parod rŵan yw 3.4%. Mae hyn yn golygu fod y Swyddfa Gartref wedi trosglwyddo peth o Gyfyngiad Gwariant Adrannol y Swyddfa Gartref (DEL) o 1.1%, ond nid y cyfan.
- Yr ail elfen yw brigdorri'r nawdd a ddyrennir i'r heddluoedd er mwyn ariannu mentrau'r Swyddfa Gartref. Mae hwn yn doriad ychwanegol o 1.5%, sydd gyfwerth â gostyngiad o £1.319m. Yn ychwanegol, mae nawdd ar gyfer mentrau sydd eisoes ar y gweill wedi'i ddiogelu, sy'n golygu bod effaith y gostyngiad sylfaen yn disgyn yn llwyr ar y cyllidebau a ddyrannwyd - 0.2% yn ychwanegol. Mae'r setliad yn dangos brigdoriadau darpariaethol gwerth cyfanswm o £176.8 miliwn yn 2015/16 o gymharu â £90 miliwn yn 2014/15. Y tri brigoriad newydd yn 2015/16 yw:
 - **Cronfa Wybodaeth yr Heddlu (£5m)** – bydd rhagor o fanylion yn cael eu cyflwyno maes o law; fodd bynnag mae hyn yn ymwneud â sicrhau gwelliannau yn yr un modd â'r Gronfa Arloesedd
 - **Cronfa Prosiectau Mawr (£40m)** - bydd y brigdoriad y cynnal datblygiad Rhaglen Data Cenedlaethol yr Heddlu, Biometreg y Swyddfa Gartref a Rhaglen Cyfathrebiadau Symudol y Gwasanaethau Brys
 - **Grant Arbennig yr Heddlu (£15m)** – cronfa wrth gefn a fydd yn cefnogi heddluoedd sy'n wynebu pwysau annisgwyl neu heb ei gynllunio ychwanegol sy'n eu rhoi mewn perygl ariannol.

Bu cynnydd sylweddol yn y brigdoriad ar gyfer CCAH, a fydd yn cynyddu 67% o £18m i £30m yn 2015/16. Mae'r Swyddfa Gartref yn datgan mai'r rheswm dros hyn yw er mwyn galluogi'r CCAH i ddarparu nifer sylweddol uwch o ymchwiliadau annibynnol wrth i staff gael eu recriwtio. Bydd Cronfa Arloesedd yr Heddlu hefyd yn cynyddu o £50m i £70m.

7.4 I grynhoi, cyfanswm y nawdd ariannol gan y Llywodraeth ar gyfer 2015/16 fydd £73.162 miliwn, £3.940 miliwn yn llai na'r setliad o £77.102m a gafwyd yn 2014/15. Pe bai'r toriad

wedi bod yr un fath a rhagdybiaeth gynllunio wreiddiol y Swyddfa Gartref, sef 3.2% (a ddefnyddiwyd yn CATC 2014/15) byddai'r toriad wedi bod gyfwerth â £2.467m; felly rhaid ymateb i fwllch pellach o £1.473m yn ystod y broses gyllidol hon.

Pe bai'r toriad grant hollgynhwysfawr wedi bod yn ostyngiad arian parod o 4.7% fel y nododd y Swyddfa Gartref yn flaenorol, byddai cynnydd o 2.95% wedi bod yn ddigon; fodd bynnag mae'r toriad ychwanegol hwn ynghyd â'r angen parhaus i wneud rhagor o doriadau, a'r gofyniad cyfreithiol i osod cyllideb fantoledig yn golygu bod cynnydd o 3.44% yn angenrheidiol.

- 7.5 Mae arian ychwanegol wedi bod ar gael i ardaloedd plismona yn Lloegr yn gyfnewid am beidio â chodi treth y cyngor (grant rhewi treth y cyngor). Mae hyn yn werth £503 miliwn yn 2015/16, cynnydd o £3 miliwn o gymharu â 2014/15. Ble defnyddiwyd yr opsiwn hwn y mae gyfwerth ar gyfartaledd â £30 fesul eiddo Band D. Nid yw hyn ar gael i ardaloedd plismona yng Nghymru.
- 7.6 Ni wnaed unrhyw gyhoeddiad eto ynghylch yr arian fydd ar gael ar gyfer 2016/17 a thu hwnt. Cynhelir Etholiad Cyffredinol ym Mai 2015 ac mae pob un o'r pleidiau gwleidyddol wedi datgan eu hymrwymiad i leihau diffyg blynyddol y genedl. Mae'n debygol y bydd hyn yn golygu toriadau ar o leiaf yr un lefel yn y grant sylfaen tan 2018/19, a bydd hefyd bwysau ychwanegol o ddiogelu o'r elfennau yng nghyllideb y Swyddfa Gartref sydd wedi'u clustnodi, ynghyd â'r posibilrwydd o frigidorri ychwanegol. Yr amcangyfrif yn y CATC diwethaf odd y mai 3% fyddai toriadau'r dyfodol; gan ystyried yr hollwybodaeth uchod, penderfynwyd y byddai'n ddoeth cynyddu'r rhagdybiaeth i 4%. Efallai y bydd modd darogan yn well yn y misoedd yn dilyn yr etholiad wrth i'r llywodraeth newydd amlinellu ei chynlluniau ariannol.
- 7.7 Mae'r llywodraeth ar hyn o bryd yn dilyn polisi o sicrhau fod pob ardal blismona yn cael yr un toriad canrannol yn ei grant sylfaen. Mae hyn yn golygu nad yw'r fformiwla ariannu heddluoedd a ddatblygwyd yn 2007 wedi ei defnyddio; hyn hefyd oedd polisi'r llywodraeth flaenorol. Golyga hyn fod Heddlu Gogledd Cymru yn cael 'grant llawr' er mwyn sicrhau ei fod yn cael yr un toriad a phob heddlu arall. Mae tua hanner yr heddluoedd yn cael rhyw elfen o grant llawr; grant llawr cyflawn Gogledd Cymru ar gyfer 2015/16 yw £11.028m.
- 7.8 Mae'r Swyddfa Gartref yn adolygu'r fformiwla ariannu ar hyn o bryd ond ni fydd y cynigion fydd yn deillio o'r adolygiad hwn yn cael eu gwneud tan ar ôl yr etholiad cyffredinol. Ni wyddom a fydd y polisi o'r un lefel o doriadau ym mhob ardal blismona yn parhau. Mae'r ddau fater hwn yn rhai sy'n peri cryn ansicrwydd ariannol a risg i'r Heddlu hwn yn y dyfodol.

8. Cyllideb 2015/16 hyd 2018/19

- 8.1 Mae crynodeb o'r Rhagolygon Cyllidol a newidiadau yn 2015/16 a'r blynyddoedd wedyn i'w gweld yn Atodiad A.
- 8.2 Mae rhai o'r rhagdybiaethau ar gyfer y dyfodol wedi'u diweddarau, fel y nodwyd uchod. Y prif ragdybiaethau yw:
- Chwyddiant cyflogau blynyddol yn 1% o Fedi bob blwyddyn
 - Chwyddiant cyffredinol yn 2%
 - Chwyddiant penodol wedi'i gynnwys ble'n hysbys (e.e. bydd costau systemau TG Cenedlaethol yn cynyddu 22% yn 2015/16)

- Cynnydd o 3.44% yn Nhreth y Cyngor yn 2015/16; 3.5% yn 2016/17; a 2.5% yn 2017/18 a 2018/19
- Gostyngiad o 5.1% mewn grant ar gyfer 2014/15; 4% wedi hynny
- Newidiadau i daliadau Yswiriant Gwladol yn 2016/17 a fydd yn ychwanegu £2.7 miliwn arall at y bil cyflogau, cyfwerth â thoriad ychwanegol o 3.7%

8.3 Yn seiliedig ar y rhagdybiaethau hyn, amcangyfrifir y bydd angen toriadau o £15.513 miliwn dros y pedair blynedd nesaf, fel a ganlyn:

	2015/16	2016/17	2017/18	2018/19
Toriadau angenrheidiol	£4.448m	£4.563m	£3.382m	£3.120m

8.4 Effaith chwyddiant a thoriadau mewn grant yw:

	2015/16	2016/17	2017/18	2018/19
Cynnydd Chwyddiannol	£3.080m (2.18%)	£4.143m (2.96%)	£2.478m (1.72%)	£2.383m (1.63%)
Gostyngiad mewn Grant	£3.940m (5.1%)	£2.926m (4.0%)	£2.810m (4.0%)	£2.697m (4.0%)
Llai: arian ychwanegol o gynnydd yn Nhreth y Cyngor	(£2.572m) (3.44%)	(£2.506m) (3.5%)	(£1.906m) (2.5%)	(£1.960m) (2.5%)
Diffyg Diwygiedig	£4.448m	£4.563m	£3.382m	£3.120m

8.5 Mae mynd i'r afael â blaenoriaethau lleol a chenedlaethol yn gofyn am adnoddau ychwanegol mewn rhai meysydd penodol. Gellir ymdopi â hyn i raddau helaeth drwy ail-flaenoriaethu o fewn gwasanaethau; fodd bynnag mae rhai gofynion sy'n dod i'r amlwg wedi galw am staff ychwanegol ac ariannwyd y rhain o'r toriadau a wnaed. Mae'r ffigwr chwyddiant uchod yn cynnwys £0.437m o fuddsoddiad ychwanegol yn yr Uned Diogelu'r Cyhoedd (UDC) a Thrwyddedu Drylliau Tanio. Mae gweithgaredd ar lein a pheryglon ecsbloetio plant agored i niwed wedi golygu bod yn rhaid gwneud buddsoddiad yn yr Uned Diogelu'r Cyhoedd. Mae'r lefel angenrheidiol o graffu ar drwyddedau drylliau tanio a'r cynnydd sydd wedi'i ragweld yn y nifer o drwyddedau fydd yn cael eu hadnewyddu dros y tair blynedd nesaf yn golygu bod angen rhagor o adnoddau yma hefyd.

8.6 Mae'r Bwrdd Cynllunio Strategol wedi adnabod a chytuno ar £4.448 miliwn o doriadau ar gyfer 2015/16 ar draws yr heddlu, mae'r rhain i'w gweld isod:

Toriadau yn 2015/16	
Adolygiad Gwasanaethau Busnes	£0.642m
Adolygiad Gwasanaethau Corfforaethol	£0.084m
Dyfodol Gweithrediadau GPLI	£0.269m
Dyfodol Gweithediadau SCCH	£0.507m
Adolygiad Fforensig	£0.300m
Cefnogaeth Wyddonol	£0.033m
Uned Diogelu'r Cyhoedd	£0.096m
Dyfodol Cyfathrebiadau	£0.499m

Cynllunio Gweithredol	£0.075m
Plismona'r Ffyrdd	£0.104m
Ystadau	£0.126m
Cerbydau a Chludiant	£0.075m
Dadansoddwyr	£0.056m
Goramser	£0.150m
Cynghrair Drylliau Tanio	£0.300m
Amodau Cyflogi (CRTP)	£0.203m
Cyfalaf a Benthycu	£0.400m
Adolygiad o'r Gyllideb	£0.529m
Cyfanswm i'w dorri	£4.448m

- 8.7 Mae hyn yn gadael £11.065 miliwn i'w arbed dros y cyfnod 2016/17 - 2018/19. Yn y 22 ffrwd waith cychwynnol y cytunodd y Bwrdd Cynllunio Strategol arnynt dynodwyd £4.729 miliwn posibl i'w arbed yn 2016/17 a 2017/18; mae angen datblygu'r cynlluniau ar gyfer yr arbedion hyn cyn iddynt gael eu gweithredu. Er mwyn mynd i'r afael â'r bwlch o £6.336 sy'n weddill, mae 18 ffrwd waith ychwanegol wedi'u hadnabod a bydd gwaith yn parhau dros y 6 mis nesaf. Yr arbedion posibl ar gyfer 2016/17 - 2017/18 yw:

	2016/17 and 2017/18
Adolygiad Gwasanaethau Busnes	£0.797m
Adolygiad Gwasanaethau Corfforaethol	£0.400m
Dyfodol Gweithrediadau GPLI	£0.191m
Dyfodol Gweithrediadau SCCH	£1.029m
Cefnogaeth Wyddonol	£0.267m
Dyfodol Cyfathrebiadau	£0.393m
Ystadau	£0.209m
Cerbydau a chludiant	£0.303m
Dadansoddwyr	£0.035m
Goramser	£0.150m
Contractau TG	£0.700m
Gwasanaeth Awyr Cenedlaethol yr Heddlu	£0.100m
Amodau Cyflogi (CRTP)	£0.155m
Cyfanswm	£4.729m

- 8.8 Hyd yma mae 40% o'r toriadau a wnaed gan Heddlu Gogledd Cymru wedi bod ar gyllidebau heb for yn rhai staff, o gymharu â 29% yn genedlaethol. Gan fod costau staff yn cyfrif am bron 80% o'r gyllideb net, bydd rhagor o bwysau yn y dyfodol i dorri cyllidebau staffio, boed yn Swyddogion, SCCH neu Staff. Bydd y cynlluniau a nodir uchod yn arwain at y gostyngiadau staffio canlynol:

	2015/16	2016/17 (Amcangyfrif)	2017/18 (Amcangyfrif)	Cyfanswm
Swyddogion	35	10	2	47
SCCH	19	19	21	59
Staff	3	26	12	41
Cyfanswm	57	55	35	147
Yn cynnwys sifileiddio	19	3	1	23

8.9 Mae'r toriad ychwanegol amcangyfrifedig angenrheidiol o £6.336 miliwn yn debygol o ddisgyn ar gyllidebau staffio. Bydd pob maes arall yn cael ei adolygu'n barhaus ond gan fod toriadau eisoes wedi eu gwneud yn y meysydd hyn, mae'n dod yn gynyddol anodd dod o hyd i arbedion heb fod yn rhai staffio. Pe bai'r £6.336 i gyd yn dod o staffio (Swyddogion, SCCH a Staff), byddai angen gostyngiad o tua 181 swydd arall ar ben y 147 a nodir uchod. Pe bai'r cynnydd yn nhreth y cyngor yn aros ar 2% fel y nodir yn y CATC blaenorol, byddai angen torri 78 swydd arall.

9.0 Risgiau

9.1 Mae manylion ynghylch y risgiau i'r gyllideb yn y dyfodol i'w gweld yn y CATC. Mae crynodeb o'r prif risgiau i'w weld isod, mae rhai o'r rhain eisoes wedi'u hamlygu yn yr adroddiad hwn

- Ansicrwydd parthed ariannu, gan gynnwys brigdorri, a manylion yn cael eu cyflwyno'n hwyr yn y cylch cynllunio
- Gallai newidiadau i'r fformiwla ariannu yn y dyfodol fod yn niweidiol i Ogledd Cymru; tynnu'r grant llawr yn ôl
- Gofynion cenedlaethol a lleol sy'n dechrau dod i'r amlwg Emerging national and local requirements
- Gwireddu'r cynlluniau arbedion presennol
- Dynodi cynlluniau arbedion y dyfodol
- Y sefyllfa economaidd genedlaethol sy'n gwaethygu yn golygu bod yn rhaid gwneud rhagor o doriadau
- Cynnydd mewn costau cyflogau (gan gynnwys cyfraniadau pensiwn ac yswiriant gwladol) – mae cyflogau yn cyfrif am oddeutu 80% o'r gyllideb net.

10. Hydwythedd a Chronfeydd Wrth Gefn

10.1 Mae ar y Comisiynydd ddyletswydd i sicrhau fod ganddo gronfa wrth gefn ddigonol i reoli risg. Yn ychwanegol ar y risgiau ariannu a rhagamcanu uchod, mae angen i'r Comisiynydd ddarparu ar gyfer risg gwariant (gwario mwy na'r gyllideb) gan gynnwys digwyddiadau difrifol costus, trychinebau naturiol a digwyddiadau anrhagweladwy eraill. Yn draddodiadol mae'r risg wedi'i reoli drwy gyllidebau argyfwng, sydd wedi bod yn rhan o'r gyllideb flynyddol. Mae'r rhain yn cael eu lleihau a chyfran uwch o'r risg hwnnw'n cael ei drosglwyddo i Gronfeydd wrth Gefn a Balansau.

10.2 Mae'r Gronfa Gyffredinol ar hyn o bryd yn £7.189m, sydd yn 5.14% o gyllideb net amcangyfrifedig 2015/16. Ystyrir mai 3 - 5% fyddai'n ddoeth. Cynhaliwyd adolygiad o'r cronfeydd wrth gefn fel rhan o'r broses o osod y gyllideb ac oherwydd bod rŵan gronfa benodol ar gyfer ymateb i ddigwyddiadau difrifol, penderfynwyd lleihau'r Gronfa Gyffredinol i £4.189, sef 3% o'r gyllideb net. Mae hyn yn bosibl oherwydd bod y Gronfa Gyffredinol o'r blaen yn cynnwys elfen ar gyfer ymateb i ddigwyddiadau difrifol pe bai angen.

10.3 Bydd dwy o'r cronfeydd a glustnodwyd yn cael eu cau: Y Gronfa Refeniw a Phrosiectau (£1.949m) a'r Gronfa Rheoli Newid (£1.659m). Sefydlwyd y ddwy gronfa hon er mwyn rheoli costau lleihau cyllidebau. Bydd y newidiadau hyn, ynghyd â'r £3 miliwn a ryddhawyd o'r Gronfa Gyffredinol, yn cael eu hailddosbarthu fel a ganlyn : Cronfa Gyfalaf £2m; Cost y Gronfa Newid £2.6m; a'r Gronfa Diogelu ac Olgroniad Cynnal a Chadw'r Ystâd £1.6m.

10.4 Bydd y defnydd o'r cronfeydd yn y pendraw yn dibynnu ar benderfyniadau terfynol ar wariant cyfalaf a'r setliadau refeniw terfynol; mae'r tabl isod yn dangos y cynllun presennol ar gyfer ceisio gwneud y defnydd gorau o gronfeydd a glustnodwyd i gefnogi darpariaeth gwasanaeth a lleihau cyllidebau refeniw. Ble nad oes modd darogan y defnydd o gronfa (e.e. y Gronfa Digwyddiadau Mawr) ni ddangosir unrhyw newidiadau. Bydd y defnydd o gronfeydd yn cael ei fonitro a'i adolygu'n rheolaidd.

Cronfeydd defnyddiadwy:	31 Mawrth 2014 £m	31 Mawrth 2015 £m	31 Mawrth 2016 £m	31 Mawrth 2017 £m	31 Mawrth 2018 £m	31 Mawrth 2019 £3m	
Cronfa derbyniadau cyfalaf	3.240	1.736	-	-	-	-	Ni ellir ond ei defnyddio ar gyfer cyfalaf
Cronfa Gyffredinol	7.189	4.189	4.189	4.189	4.189	4.189	Wedi gosod ar 3% o'r gyllideb net o 2015/16
Cronfeydd wedi'u clustnodi	30.943	30.547	19.189	16.324	14.638	12.875	Manylion Isod
Cyfanswm Cronfeydd Defnyddiadwy	41.372	36.472	23.378	20.513	18.827	17.064	

Dangosir dadansoddiad o'r Cronfeydd a Glustnodwyd amcangyfrifedig ar ddiwedd bob blwyddyn ariannol isod. Mae rhagor o fanylion i'w gweld yn y CATC.

Disgrifiad	31 Mawrth 2014 £m	31 Mawrth 2015 £m	31 Mawrth 2016 £m	31 Mawrth 2017 £m	31 Mawrth 2018 £m	31 Mawrth 2019 £m
Buddsoddiad cyfalaf	13.626	12.682	3.356	2.000	2.000	2.000
Digwyddiadau difrifol	2.235	2.235	2.235	2.235	2.235	2.235
Cronfa Bensiwn Salwch	0.881	0.881	0.881	0.881	0.881	0.881
Cronfa Yswiriant	1.259	1.259	1.259	1.259	1.259	1.259
Rheoli Newid	1.659	-	-	-	-	-
PFI	3.061	3.434	3.729	4.024	4.142	4.183
Swyddogion ar Brawf	4.840	4.140	3.440	2.740	2.040	1.340
Refeniw a Phrosiectau	1.949	-	-	-	-	-
Diogelwch a chynnal a chadw ystadau	-	2.000	1.500	1.000	0.500	-
Cost Newid	-	2.608	1.608	1.108	0.608	0.108
Cronfa Partneriaethau	0.838	0.734	0.630	0.526	0.422	0.318
Cronfa Diogelwch Cymunedol y Comisiynydd	0.229	0.229	0.229	0.229	0.229	0.229
SCHTh gan gynnwys costau cyfreithiol a Chyllidebau Cyfranogol	0.366	0.345	0.322	0.322	0.322	0.322
Cyfanswm	30.943	30,547	19.189	16.324	14,638	12,875

11. Cyfalaf

- 11.1 Y rhaglen gyfalaf ar gyfer 2014/15 fel y manylwyd yn y CATC blaenorol, oedd £13.9m a phan gynhwyswyd symiau wedi'u dwyn ymlaen roedd hyn yn cynyddu i £15.3m. Mae dros hanner y gyllideb hon yn ymwneud â: Prosiect Wrecsam (£4.4m); Datblygiad Llandudno (£2.75m); symud gorsaf Pwllheli (£0.85m) – cyfanswm £8m. Mae'r achosion busnes cychwynnol ar gyfer y prosiectau hyn wedi'u cytuno, ond mae'n annhebygol y bydd y gwaith adeiladu yn cychwyn yn ystod y flwyddyn ariannol hon, felly mae costau'r prosiectau hyn a phob un arall yn y rhaglen gyfalaf wedi'u hadolygu a'u hailbroffilio gan roi rhaglen gyfalaf ddiwygiedig o £7.035 miliwn ar gyfer 2014/15. Mae manylion ychwanegol i'w gweld yn y CATC.
- 11.2 Mae cynlluniau y tu hwnt i 2016/17 yn gyfyngedig ar hyn o bryd i raglenni adnewyddu Cerbydau a TG. Bydd adolygiad o'r ystâd yn digwydd yn ystod 2015/16 a bydd y rhaglen gyfalaf yn cael ei hadolygu ar ôl hyn ar ac ôl cwblhad y gwaith mawr fydd yn digwydd dros y ddwy flynedd nesaf.

Crynodeb o Raglen Gyfalaf 2014/15 - 2016/17

Gwariant	£m
Stadau	21.720
Cerbydau ac Offer	5.202
Technoleg Gwybodaeth a Chyfrifiadura	6.239
Cyfanswm Gwariant	33.161
Ariannu	
Grantiau	3.300
Cyfraniadau Refeniw	2.096
Cronfeydd wrth gefn	13.626
Derbyniadau Cyfalaf	6.117
Benthyca	8.022
Cyfanswm	33.161

12. Ystyried yr Opsiynau

- 12.1 Mae'r Comisiynydd wedi ystyried yr holl opsiynau sydd ar gael. Yn seiliedig ar y ffigyrau a roddwyd gan y Swyddfa Gartref, roedd y CATC diwethaf yn amcangyfrif toriad grant o 3.2%; mae'r ffigwr terfynol o 5.1% yn sylweddol uwch. Roedd yr Heddlu wedi cyflwyno cynlluniau drafft yn seiliedig ar ostyngiad grant amcangyfrifedig o 4.7%. Wrth benderfynu ar y cynnydd arfaethedig yn Nhreth y Cyngor, rhaid cael cydbwysedd rhwng cynnydd fforddiadwy a diogelu'r gwasanaeth plismona. Mae'n rhaid i hyn fod yn seiliedig ar yr hyn sydd wedi digwydd dros y pedair blynedd ddiwethaf a rhagamcanion ar gyfer y pedair nesaf. Mae'n anorfod y bydd toriadau ychwanegol yn taro'r rheng flaen a niferoedd swyddogion. Byddai toriad grant o 4.7% wedi galluogi gosod cynnydd o 2.95% yn Nhreth y Cyngor, ond oherwydd bod y Swyddfa Gartref wedi torri'r grant 5.1%, mae cynnydd o 3.44% yn angenrheidiol. Y gwahaniaeth rhwng cynnydd o 2.95% a chynnydd o 3.44% yw £1.17 y flwyddyn, neu 2 geiniog yr wythnos ar eiddo Band D.
- 12.2 Mae'r Comisiynydd wedi cynnal trafodaethau gyda'r Prif Gwnstabl sydd wedi cadarnhau y byddai cynnydd o 3.44% yn Nhreth y Cyngor yn rhoi cyllideb ddigonol i alluogi darpariaeth weithredol y gwasanaeth plismona yn 2015/16. Fodd bynnag, oherwydd bod y darlun ar gyfer y dyfodol yn ansicr o ran lefel grantiau a newidiadau mewn pwysau gweithredol, nid

yw'n bosibl dweud ar hyn o bryd a fydd y rhagdybiaethau cynllunio o ran codiadau'r dyfodol yn gynaliadwy yn y tymor canolig

12.3 O godi Treth y Cyngor 3.44%, y prisiadau ar ar gyfer pob band eiddo yw:

Band	A	B	C	D	E	F	G	H	I
Treth y Cyngor £	156.96	183.12	209.28	235.44	287.76	340.08	392.40	470.88	549.36

12.4 Y praesept ar gyfer pob ardal filio fydd:

Awdurdod Bilio	Sylfaen Treth	Praesept
Cyngor Sir Ynys Môn	30,188.51	£7,107,583
Cyngor Gwynedd	49,835.48	£11,733,265
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy	49,634.93	£11,686,048
Cyngor Sir Ddinbych	38,738.35	£9,120,557
Cyngor Sir y Fflint	61,933.00	£14,595,632
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam	52,797.00	£12,430,526
Total	283,187.27	£66,673,611

13. Goblygiadau

Amrywiaeth	Bydd argymhellion yr adroddiad yn effeithio ar niferoedd cyflogaion yr Heddlu yn y dyfodol.
Ariannol	Pwrpas yr adroddiad yw argymhell y Praespet a Threth y Cyngor ar gyfer 2015/16 a'r ffactorau a ystyriwyd wrth wneud yr argymhelliad hwn, er mai am un flwyddyn ariannol y mae'r argymhelliad, mae'n bwysig hefyd ystyried y sefyllfa tymor canolig/hirdymor wrth wneud penderfyniad. Mae adnoddau ariannol digonol yn hollbwysig yn narpariaeth y Cynllun Heddlu a Throsedd ac i gyflawni ein dyletswyddau cyfreithiol.
Cyfreithiol	Mae'r adroddiad hwn, ar y cyd a'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig, yn rhoi digon o wybodaeth i'r Panel Heddlu a Throsedd wneud penderfyniad a allai wrthsefyll her gyfreithiol yn y dyfodol.
Risg	Mae'r adroddiad yn dynodi ac yn gwerthuso risgiau'r argymhellion.
Heddlu a Throsedd	Dim goblygiadau heddlu a throsedd ar wahân.

Cyllideb 2014-15 - 2018-19									
	Cyllideb		Cyllideb		Cyllideb		Cyllideb		Atodiad A
	Flynyddol		Flynyddol		Flynyddol		Flynyddol		Cyllideb
	2014-15		2015-16		2016-17		2017-18		Flynyddo
	2014-15		2015-16		2016-17		2017-18		2018-19
Gwariant	£000		£000		£000		£000		£000
Cyflogau Swyddogion Heddlu	71,212	50	71,262	2,617	73,879	1,210	75,089	1,216	76,305
Cyflogau Staff yr Heddlu	40,471	-199	40,272	344	40,616	640	41,256	644	41,900
Goramser Swyddogion Heddlu	2,133	-155	1,978	0	1,978	0	1,978	0	1,978
Goramser Staff yr Heddlu	411	0	411	0	411	0	411	0	411
Lwfansau	2,548	-524	2,024	455	2,479	-50	2,429	-50	2,379
Hyfforddiant	639	32	671	33	704	36	740	37	777
Cyflogai eraill	660	13	673	13	686	14	700	14	714
Taliadau Pensiwn Uniongyrchol	3,020	82	3,102	84	3,186	86	3,272	88	3,360
Costau Ynni	1,409	0	1,409	71	1,480	74	1,554	78	1,632
Costau Rhedeg Adeiladau	6,778	-114	6,664	133	6,797	136	6,933	139	7,072
Trwsio a Chynnal Cerbydau	838	19	857	17	874	17	891	18	909
Costau Rhedeg Cerbydau	2,084	-62	2,022	83	2,105	86	2,191	89	2,280
Lwfansau ceir a theithio	719	13	732	15	747	14	761	16	777
Uned Cefnogaetho'r Awyr	1,394	0	1,394	0	1,394	0	1,394	0	1,394
Offer	665	-3	662	14	676	13	689	14	703
Dillad a Lifrai	426	0	426	0	426	0	426	0	426
Argraffu a Phapurach	545	11	556	11	567	11	578	12	590
TG a Chyfathrebiadau	9,114	-23	9,091	0	9,091	0	9,091	0	9,091
Cynhaliaeth	285	4	289	6	295	6	301	6	307
Gwasanaethau a Chyflenwadau Eraill	7,243	483	7,726	226	7,952	236	8,188	90	8,278
Gwasanaeth Fforensig	1,351	-273	1,078	21	1,099	22	1,121	23	1,144
Costau Dyledion a Chyfraniadau i Gyfala	1,904	-400	1,504	0	1,504	0	1,504	0	1,504
		0		0		0		0	
Cronfa Sefyllfaoedd Arbennig	554	-154	400	0	400	0	400	0	400
Chwyddiant a Chronfa Gyffredinol	468	-68	400	0	400	0	400	0	400
Cronfa Diogelwch Cymunedol	1,166	0	1,166	0	1,166	0	1,166	0	1,166
Gwariant Gros	158,037	-1,268	156,769	4,143	160,912	2,551	163,463	2,434	165,897
Incwm									
Secondiadau	-1,485	185	-1,300	0	-1,300	0	-1,300	0	-1,300
Llog ar falansau	-271	0	-271	0	-271	0	-271	0	-271
Incwm	-5,298	-100	-5,398	0	-5,398	0	-5,398	0	-5,398
Grantiau Penodol	-10,048	-3	-10,051	0	-10,051	0	-10,051	53	-9,998
Cyfanswm Incwm	-17,102	82	-17,020	0	-17,020	0	-17,020	53	-16,967
Cronfa PFI	373	-78	295	0	295	-73	222	-104	118
Cronfa Ymwybyddiaeth Cyflymder	-104	-104	-208	0	-208	0	-208	0	-208
Ychwanegol o Gronfeydd	0	0	0	0	0	0	0	0	0
Gwariant Net	141,204	-1,368	139,836	4,143	143,979	2,478	146,457	2,383	148,840
Cyfanswm Grantiau	-77,102	3,940	-73,162	2,926	-70,236	2,810	-67,426	2,697	-64,729
Praesept	-64,102	-2,572	-66,674	-2,506	-69,180	-1,906	-71,086	-1,960	-73,046
Ariannu	-141,204	1,368	-139,836	420	-139,416	904	-138,512	737	-137,775
Balans Blynyddol	0	0	0	4,563	4,563	3,382	3,382	3,120	3,120
Cronnus					4,563		7,945		11,065

**Comisiynydd Heddlu a Throsedd a Phrif Gwnstabl
Heddlu Gogledd Cymru**

Cynllun Ariannol Tymor Canolig

2015-16 i 2018-19

1. Cyflwyniad

1.1 Mae'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig (CATC) yn cysylltu Cynllun Plismona 2015-2018 a'r Blaenoriaethau Plismona y cytunodd y Comisiynydd Heddlu a Throsedd a'r Prif Gwnstabl arnynt gyda'r Strategaeth Ariannol (Atodiad A) a'r adnoddau sydd ar gael.

1.2 Nod

Nod y papur hwn ydi nodi sut mae'r gyllideb wedi cael ei mantoli hyd yma a'r cynlluniau ar gyfer ei mantoli yn ystod y blynyddoedd i ddod ar yr un pryd â chynnal perfformiad a sicrhau bod blaenoriaethau lleol a chenedlaethol yn cael eu cyflawni.

1.3 Cefndir


Roedd Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant gwreiddiol (ACW2010) y Llywodraeth yn berthnasol i'r cyfnod 2011-2015 ac yn cynnwys toriadau sylweddol ar draws y sector cyhoeddus. Y gostyngiad ariannol gwreiddiol y cynlluniwyd ar ei gyfer yng Nghyllidebau'r Heddlu dros y 4 blynedd oedd 12%. Cytunodd Awdurdod yr Heddlu ar gynnydd o 4% yn Nhreth y Cyngor ar gyfer 2011-12 a 2.5% ar gyfer 2012-13. Cynyddwyd Treth y Cyngor 4% yn 2013-14, a oedd yn cynnwys ailfuddsoddiad gwerth £1.8 miliwn o arbedion mewn swyddi ar gyfer 51 Swyddog Heddlu newydd. Cynyddwyd Treth y Cyngor 2% yn 2014-15. Mae'r tabl isod yn nodi'r toriadau a wnaed hyd yma:

Blwyddyn	2011-12	2012-13	2013-14	2014-15	Cyfanswm
Toriadau	4.678m	6.016m	4.634m	4.325m	19.653m

1.4 Dros 4 blynedd ACW2010 bydd gwerth £19,653miliwn o doriadau wedi'u gwneud, a bydd £1.8miliwn wedi'i ail-fuddsoddi mewn swyddi rheng flaen. Mae arian grant wedi gostwng 18% dros y cyfnod o bedair blynedd, mae'r incwm a geir o'r praesept wedi cynyddu 14.5% dros yr un cyfnod, ac felly mae hyn wedi arwain at ostyngiad go iawn o 13.5% yng nghyfanswm y gyllideb.

1.5 Mae llawer o sylw wedi cael ei roi i'r ffaith bod y diffyg ariannol cenedlaethol ond wedi cael ei haneru dros y pedair blynedd diwethaf. Roedd y diffyg ariannol yn £159 biliwn yn 2010-11 ac mae'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol yn rhagweld y bydd y ffigwr yn £91 biliwn yn 2014-15. Mae yna ansicrwydd ynghylch yr etholiad cyffredinol ym Mai 2015 ond mae'r holl bartïon gwleidyddol wedi nodi eu bod yn bwriadu 'mantoli'r cyfrifon' dros gyfnod y senedd nesaf. **Golyga hyn y bydd rhaid gwneud rhagor o doriadau yn y gwasanaeth Heddlu dros y pedair blynedd nesaf ar raddfa debyg i'r pedair blynedd diwethaf.** Fe ddangosir graddfa'r broblem yn y graff isod:

Chart 1.3: Total public spending and receipts: March 2014 forecast



2. Y Broses Gynllunio

- 2.1 Cafodd y cynlluniau arbedion ar gyfer y cyfnod 2011-12 i 2014-15 eu pennu i ddechrau yn ystod 2010-11 pan gyhoeddwyd yr Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant (ACW2010) cyntaf. Roedd yn amlwg yn ystod y broses o osod y gyllideb ar gyfer 2014-15 y byddai'r toriadau yn parhau dros o leiaf gyfnod y senedd nesaf. Yn bennaf yr arbedion olaf a oedd yn deillio o'r gwaith a wnaed ac a weithredwyd yn dilyn ACW2010 oedd y rhai a wnaed yn 2014-15. Cyflwynwyd proses ar gyfer adnabod a gwneud arbedion yn ystod y cyfnod 2015-16 i 2017-18 yn ystod 2014-15 dan arweinyddiaeth y Bwrdd Cynllunio Strategol.
- 2.2 Sefydlwyd y Bwrdd Cynllunio Strategol (BCS) dan gadeiryddiaeth y Prif Gwnstabl er mwyn adnabod arbedion ac er mwyn iddynt gael eu cytuno a'u gweithredu ar gyfer y cyfnod 2015-16 i 2017-18. Mae penaethiaid pob maes busnes yn mynychu cyfarfodydd y Bwrdd gan gynnwys cynrychiolaeth o Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd, Cymdeithasau Staff, Adran Gyllid, Adnoddau Dynol ac eraill yn ôl yr angen.
- 2.3 I ddechrau mi wnaeth y BCS adnabod 22 lliw gwaith Cafodd y rhain eu hadnabod o ganlyniad i gyfuniad o adolygiadau mewnol a oedd eisoes wedi'u cynnal a Phroffiliau Gwerth am Arian AHM (PGA AHM). Cafodd Arweinydd Gwasanaeth neu Arweinydd Swyddogaeth ei glustnodi ar gyfer pob lliw gwaith. Cafodd yr argymhellion terfynol eu cyflwyno ar 15 Medi 2014 ac ar ôl iddynt gael eu cymeradwyo, fe gynhaliwyd proses ddiwydrwydd dyladwy ar yr arbedion arfaethedig. Ceir manylion pellach ynghylch yr arbedion hyn yn Adran 6 o'r adroddiad hwn.
- 2.4 Ar ben adnabod yr arbedion angenrheidiol, ymgwymerwyd â'r broses gyllidebol arferol er mwyn datblygu gofynion cyllidebol yn y dyfodol, ac mae'r manylion wedi'u cynnwys yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig (CATC) hwn. Wrth ddatblygu'r CATC hwn rhoddwyd ystyriaeth i'r canlynol:
- Blaenoriaethau Lleol a Chenedlaethol fel y'i nodwyd yng Nghynllun Heddlu a Throsedd a Chynllun Gweithredu 2015-16

- Pwysau newydd a datblygol
- Y broses gynllunio strategol
- Strategaethau eraill yr Heddlu
- Yr hinsawdd economaidd bresennol
- Amcangyfrifon o'r adnoddau ar gael i ariannu'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig
- Rhagolygon cyllidebol ar gyfer y cyfnod yn cynnwys dyfarniadau cyflog
- Y sefyllfa ariannol bresennol
- Y Rhaglen Gyfalaf a'r Cod Ariannol a'u heffaith ar y Gyllideb Refeniw
- Cronfeydd wrth Gefn a Balansau
- Cynhyrchu incwm, gweithgareddau masnachu a grantiau
- Cydweithio

2.5 Cafodd y cyllidebau drafft eu trafod mewn manylder gan Dîm yr Uwch Swyddogion a'r Arweinwyr Gwasanaeth ar 4 Tachwedd 2014. Mi wnaeth Prif Swyddogion Ariannol y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl drafod y cynigion ar 13 Tachwedd 2014. Cynhaliwyd cyfarfod rhwng y Comisiynydd, y Prif Gwnstabl a'u cynrychiolwyr ar 3 Rhagfyr i drafod y cynigion ar gyfer y gyllideb. Cyhoeddwyd ffigyrau grant y Llywodraeth ar 17 Rhagfyr. Cymeradwywyd y cynigion terfynol ar 18 Rhagfyr mewn cyfarfod rhwng y Comisiynydd a'i staff a Thîm yr Uwch Swyddogion.

2.6 Bydd yr adrannau dilynol yn nodi manylion yr holl ddatblygiadau ers y CATC blaenorol gan gyflwyno'r sefyllfa ddiweddaraf o safbwynt Refeniw, Cyfalaf a Chronfeydd wrth Gefn.

3. Cyllideb 2014-15

3.1 Torrwyd nawdd y Llywodraeth 4.8% yn 2014-15, gan olygu bod y gyllideb blismona wedi'i thorri 18% yn ystod y cyfnod 2011-12 i 2014-15. Mae hyn 6% yn uwch na'r 12% a gyhoeddwyd yn wreiddiol gan y Swyddfa Gartref yn 2010. Roedd y toriad yn uwch oherwydd bod yr hinsawdd ariannol yn waeth na'r hyn a ragwelwyd yn wreiddiol a hefyd gwnaeth y Swyddfa Gartref doriadau pellach er mwyn ariannu mentrau penodol yn ganolog. Er mwyn mantoli cyllideb 2014-15 gwnaed toriadau gwerth £4.325miliwn. Mae'r toriadau hyn ar y llwybr cywir i gael eu diwallu ac ar hyn o bryd fe ragwelir y bydd y gyllideb yn cwrdd â'r costau ar ddiwedd 2014-15.

Toriadau a wnaed yn 2014-15

£miliwn

Prosiect 2011+ ac adolygiadau eraill	-0.666
Lwfansau, goramser a throsiant staff	-1.324
Costau pensiwn	-0.400
Rhaglen Adnewyddu TG	-0.321
Y Gynghair Drylliau Tanio	-0.400
Gwaith Fforensig	-0.150
Incwm	-0.540
Grantiau	-0.414
Chwyddiant	-0.110

Cyfanswm **-4.325**

3.2 Mae AHEM a Swyddfa Archwilio Cymru (SAC) yn adolygu'r canlynol yn flynyddol: sefyllfa ariannol yr Heddlu; y broses gynllunio; arbedion sydd wedi'u gwneud; arbedion sydd eisoes i'w gwneud. Isod ceir crynodeb o'r adolygiadau a'r archwiliadau sydd wedi'u cynnal.

3.3 Dros y pedair blynedd diwethaf mae AHEM wedi bod yn cynnal adolygiadau *Gwerthfawrogi'r Heddlu*. Mae'r olaf o'r rhain wedi cael ei ymgorffori i'w rhaglen adolygu newydd *Adolygiadau PEEL* (Effeithlonrwydd, Effeithlonrwydd a Chyfreithlondeb yr Heddlu). Y tri chwestiwn a ofynnir mewn perthynas â chyllid ydi:

1. I ba raddau y mae'r Heddlu yn effeithlon?
2. I ba raddau y mae'r Heddlu yn cymryd camau i sicrhau sefyllfa ariannol ddiogel yn y tymor byr a'r hirdymor?
3. I ba raddau y mae gan yr Heddlu ffordd fforddiadwy o ddarparu gwasanaeth plismona?

3.4 Caiff heddluoedd eu graddio fel bod yn 'rhagorol', 'da', 'angen gwella', neu'n 'annigonol' o ran bob cwestiwn. Y raddfa a gafwyd gogyfer â'r tri chwestiwn oedd 'da'. Gwnaethpwyd y sylwadau cyffredinol canlynol:

"Mae Heddlu Gogledd Cymru ar y llwybr cywir i ymgymryd â'i her yn sgil yr adolygiad o wariant ac mae mewn sefyllfa dda yn ariannol i wynebu toriadau pellach, ond mae yna ansicrwydd ariannol a allai gynyddu'r pwysau ariannol yn y dyfodol.

Mae Heddlu Gogledd Cymru ar y llwybr cywir nid yn unig i ymgymryd â'i her ariannol yng nghyfnod yr adolygiad gwariant ond hefyd yn y flwyddyn ariannol nesaf, 2015/16. Mae wedi llwyddo i wneud yr arbedion angenrheidiol heb orfod lleihau niferoedd swyddogion heddlu llawer a heb orfod lleihau cyfanswm y gweithlu. Mae hyn wedi ei alluogi i gynyddu'r nifer o staff sydd ar y rheng flaen.

...Roedd 40% o'r arbedion yn rhai heb fod yn staff" (o gymharu â 29% yn genedlaethol)

Gallwch weld yr asesiad llawn drwy fynd i <http://www.justiceinspectrates.gov.uk/hmic/north-wales/>

- 3.5 Mi wnaeth SAC y sylwadau canlynol yn eu hasesiad gwerth am arian yn eu llythyr archwilio blynyddol; mae'r asesiad yn seiliedig ar set o saith maen prawf a deg cwestiwn.

"Rwy'n fodlon gyda'r trefniadau yr oedd gan y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl mewn lle ar gyfer 2013-14 i ddiogelu'r economi ac i sicrhau eu bod yn defnyddio'u hadnoddau yn effeithlon ac effeithiol."

- 3.6 Mae'r ddau asesiad yn dangos bod y toriadau yn cael eu rheoli a bod y strategaeth o ran amddiffyn y rheng flaen a niferoedd Swyddogion Heddlu yn cael ei chyflawni hyd y gellir, ond y bydd hyn yn fwyfwy anodd ei wneud yn y blynyddoedd i ddod.

4. Dyraniadau Ariannol

- 4.1 Ni roddwyd Dyraniadau Ariannol Dros dro gan y Llywodraeth ar gyfer 2016-17 fel rhan o setliad 2015-16. Yn dilyn adolygiad o wariant 'bach' y Canghellor ym mis Mehefin 2013 cyhoeddodd y Swyddfa Gartref y byddai cyfanswm cyllideb yr heddlu o fewn y Swyddfa Gartref yn cael ei thorri 4.9%, sy'n ostyngiad ariannol o 3.2% mewn gwirionedd ar ôl cymryd chwyddiant i ystyriaeth; cymerwyd y byddai'r toriad hwn yn cael ei drosglwyddo i'r ardaloedd plismona. Hwn oedd y toriad amcangyfrifedig a ddefnyddiwyd yn CATC 2014-15.

- 4.2 Yn ystod yr haf mi wnaeth trafodaethau anffurfiol a gafwyd gyda'r Swyddfa Gartref gadarnhau mai'r dybiaeth gynlluniedig a oedd yn cael ei defnyddio ganddyn nhw oedd gostyngiad ariannol o 3.2% yng nghyllidebau'r Heddlu ar gyfer 2015-16. Fodd bynnag, y ffactor anhysbys oedd y nifer o doriadau ariannol ychwanegol fyddai angen eu gwneud, a elwir yn 'brigdorri', i ariannu mentrau'r Swyddfa Gartref. Roedd toriad ychwanegol o 1.5% eisoes wedi'i wneud yn 2014-15, gyda'r gred y byddai'n afresymol gwneud yr un toriadau ychwanegol yn 2015-16. Fodd bynnag, cafwyd arwydd clir dros yr haf y byddai brigdorri yn cael ei gynyddu ar lefel rhywbeth yn debyg eto yn 2015-16. Cafodd hyn ei gynnwys yn y rhagamcaniadau a oedd yn cael sylw'r BCS.

- 4.3 Ar 17 Rhagfyr 2014 cyhoeddodd yr Ysgrifennydd Cartref a'r Gweinidog Plismona faint o arian fyddai pob ardal blismona yn ei gael. Prif bwyntiau'r cyhoeddiadau oedd:

- Gostyngiad arian parod hollgynhwysfawr o 5.1% sy'n cyfateb i £3.940miliwn yn llai o grant.
- Mae'r toriad hwn yn cynnwys y gostyngiad i'r grantiau a basiwyd ymlaen gan y Swyddfa Gartref i'r ardaloedd plismona a'r 'brigdorri' y mae'r Swyddfa Gartref wedi'i wneud i ariannu eu mentrau eu hunain. Mae'r dybiaeth gynlluniedig o 3.2% ar gyfer y gostyngiad sylfaen wedi cynyddu i 3.4%. Mae hyn yn cyfateb i £2.621miliwn o gyfanswm y gostyngiad i'r grant. Yr eglurhad a roddwyd am hyn gan dîm technegol Cymdeithas Trysoryddion Comisiynwyr Heddlu a Throsedd (CTCHTh) oedd:

'Ar adeg Adolygiad Gwariant 2013 roedd yr heddlu yn disgwyl gorfod gwneud toriadau arian parod o 3.2% yn 2015-16; a oedd ar yr adeg honno yn cyfateb i 4.9% mewn termau real. Mae'r Swyddfa Gartref wedi diweddarau'r datchwyddiant ac felly mae'r toriad mewn termau real bellach yn 4.9% a'r toriad arian parod yn 3.4%. Golyga hyn bod y Swyddfa Gartref wedi trosglwyddo peth o'r toriad 1.1% Cyfyngiad Gwariant Adrannol (CGA) y Swyddfa Gartref ond nid i gyd'.

- Yr ail elfen ydi bod toriadau yn cael eu gwneud i grantiau'r heddlu i ariannu mentrau'r Swyddfa Gartref. Mae hyn cyfwerth â thoriad ychwanegol o 1.5% sy'n cyfateb i ostyngiad o £1.319miliwn. Yn y gorffennol cafodd mentrau eu gwarchod a wnaeth basio rhai o'r toriadau ychwanegol ymlaen i'r cyllidebau dosranedig. Mae'r setliad yn dangos bod o bosib gwerth £176.8miliwn o doriadau wedi'u gwneud i'r nawdd a geir yn 2015-16. Yn 2014-15 £90miliwn oedd y ffigwr hwn. Bydd Y Swyddfa Gartref yn ariannu tair menter newydd yn 2015-16;
 - **Cronfa Gwybodaeth yr Heddlu (5miliwn)** – Bydd rhagor o fanylion ar gael yn y man, ond mae'n ymwneud â gwneud gwelliannau yn yr un modd â'r Gronfa Arloesi.
 - **Cronfa Prosiectau Sylweddol (£40miliwn)** – Bydd y Swyddfa Gartref yn defnyddio'r arian hwn i gefnogi datblygiadau Rhaglen Ddata Cenedlaethol yr Heddlu, Biometrics Y Swyddfa Gartref a Rhaglen Cyfathrebiadau Symudol y Gwasanaethau Brys.
 - **Grant Arbennig yr Heddlu (£15miliwn)** – Cronfa wrth gefn i gefnogi heddluoedd sy'n wynebu pwysau ychwanegol anghynlluniedig neu annisgwyl fyddai'n peri iddynt fod mewn risg ariannol.

Mae cynnydd sylweddol yn yr arian y mae CCAH yn ei gael - i fyny 67% o £18miliwn i £30miliwn yn 2015-16. Mae'r Swyddfa Gartref yn dweud bod hyn yn angenrheidiol er mwyn galluogi CCAH i gynnal llawer mwy o ymchwiliadau annibynnol wrth i staff ymchwiliadau gael eu recriwtio. Hefyd, cafodd balans Cronfa Arloesi'r Heddlu ei gynyddu o £50miliwn i £70miliwn.

- 4.4 Mae'r toriadau ychwanegol sydd wedi'u gwneud i ariannu mentrau'r Swyddfa Gartref wedi arwain at £2.5miliwn o ostyngiad mewn grantiau dros ddwy flynedd. Yn ychwanegol at hyn mae costau systemau TG cenedlaethol wedi cynyddu 22% yn 2015-16 sydd i raddau helaeth yn doriad pellach o £0.16miliwn. Mae nifer o gyrrff cenedlaethol wedi tynnu sylw'r Swyddfa Gartref at y pwysau atodol y mae'r toriadau ychwanegol hyn yn ei roi ar sefydliadau ond hyd yma mae'r Swyddfa Gartref wedi parhau i wneud toriadau pellach.
- 4.5 I grynhoi, £73,162miliwn ydi cyfanswm nawdd y Llywodraeth yn 2015-16, ac mae hyn yn ostyngiad o £3.940miliwn ar ffigwr 2014-15 o £77.102miliwn. Y toriad yn seiliedig ar dybiaeth gynlluniedig Y Swyddfa Gartref o 3.2% fel y'i nodwyd yn CATC y llynedd fyddai £2.467miliwn, sydd felly yn golygu bod toriad ychwanegol o £1.473miliwn wedi gorfod cael ei wneud yn y gyllideb hon.

- 4.6 Mae heddluoedd Lloegr yn derbyn nawdd ychwanegol gan y mentrau y mae'r Llywodraeth wedi'u cyflwyno yn Lloegr i annog Awdurdodau Lleol i beidio â chynyddu'r Treth Cyngor (Grant Rhewi Treth y Cyngor). Mae hyn cyfwerth â £503miliwn yn 2015-16, sy'n gynydd o £3miliwn ar ffigwr 2014-15. Ble'n berthnasol, mae hyn ar gyfartaledd yn gyfartal ag ychwanegiad o £30 i Dreth Cyngor Band D. Nid yw'r nawdd hwn ar gael yng Nghymru.
- 4.6 Nid oes cyhoeddiad wedi'i wneud o ran y nawdd fydd ar gael o 2016-17 ymlaen. Fe gynhelir yr Etholiad Cyffredinol yn Mai 2015, ac mae'r holl bartion wedi mynegi eu hymrwymiad i leihau diffyg ariannol blynyddol y genedl. Mae'n debyg y bydd hyn yn golygu o leiaf yr un lefel o doriadau i'r grant sylfaen tan 2018-19, ac mae'n debyg y bydd Y Swyddfa Gartref yn brigdorri'r nawdd ymhellach i ariannu mwy o fentrau. Yn y CATC diwethaf amcangyfrifwyd y byddai rhaid gwneud 3% o doriadau yn y dyfodol, ond gan gymryd popeth a nodwyd uchod i ystyriaeth, mae penderfyniad wedi'i wneud y byddai'n syniad doeth i gynyddu'r toriad blynyddol amcanol i 4%. Rhagwelir y bydd y sefyllfa yn dod yn gliriach yn y misoedd ar ôl yr etholiad pan fydd y Llywodraeth newydd yn nodi ei chynlluniau ariannol.
- 4.7 Mae'r Llywodraeth yma wedi dilyn polisi o sicrhau bod pob heddlu yn derbyn yr un canran o doriad i'w grant sylfaen. Golyga hyn nad yw fformiwla ariannu'r Heddlu a ddatblygwyd yn 2007 wedi cael ei defnyddio wrth gyfrifo'r cyfansymiau; dyma oedd polisi'r Llywodraeth flaenorol hefyd. Er mwyn rhoi cyfrif am y gwahaniaeth rhwng y grant fformiwla a'r grant a geir mewn gwirionedd, mae Gogledd Cymru yn cael 'Grant Llawr' er mwyn sicrhau bod yr un lefel o doriadau yn cael eu gwneud i'n grantiau Sylfaen ni ac sy'n cael ei wneud i bob heddlu arall. Yn fras mae tua hanner yr heddluoedd yn cael rhyw fath o grant llawr. Cyfanswm y Grant Llawr a geir yn 2015-16 ydi £11.028miliwn.
- 4.8 Mae'r Swyddfa Gartref yn adolygu'r fformiwla ariannu ar hyn o bryd, ond ni fydd unrhyw argymhellion yn cael eu gwneud tan ar ôl yr Etholiad Cyffredinol. Ni wyddwn os bydd y polisi o wneud yr un lefel o doriadau i bob heddlu yn parhau. Mae'r ddau fater yma yn peri cryn ansicrwydd i'r Heddlu a risg yn y dyfodol.

5. Treth y Cyngor a'r Praesept

- 5.1 Mae yna ddwy elfen i gyllideb net hollgynhwysfawr yr Heddlu, sef cyfanswm grantiau'r Heddlu a'r Praesept. Dyma gyfran y ddwy ffynhonnell yma o nawdd ar gyfer Heddlu Gogledd Cymru:

2014-15		
	£miliwn	%
Cyfanswm Grantiau'r Llywodraeth	77.102	54.6%
Cyfanswm y Praesept	64.102	45.4%
Cyfanswm Gofynion Cyllidebol	141.204	

- 5.2 Cyfrifir Treth y Cyngor drwy rannu cyfanswm y praesept â'r sylfaen drethi, sef y swm sy'n cyfateb i eiddo Band D yn ardal pob heddlu. Darperir y sylfaen drethi gan y chwe Awdurdod Lleol yng Ngogledd Cymru. Yn 2013-14 roedd gostyngiad yn y sylfaen drethi o ganlyniad i ostyngiad tybiedig yn y symiau y gallai'r Awdurdodau Lleol eu casglu. Cynyddodd y sylfaen drethi ar gyfer 2014-15, ac mae'r sylfaen drethi ar gyfer 2015-16 wedi cynyddu 0.55% eto. Golyga hyn y bydd y cynnydd canrannol yn Nhreth y Cyngor yn rhoi cynnydd canrannol ychydig yn uwch i'r Praesept (y Praesept yw'r incwm a geir o'r Treth Cyngor).
- 5.3 Mae'r rheolau ar gyfer cyfyngu ar y cynnydd yn Nhreth y Cyngor, a elwir yn rheolau capio, yn wahanol yng Nghymru a Lloegr. Cafodd ardaloedd plismona yn Lloegr fynediad at grantiau ar wahân os oeddynt yn cytuno i gyfyngu cynyddu'r Treth Cyngor. Roedd y rhain yn cael eu talu gynt gan yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol (ACLIL) ond maent erbyn hyn wedi'u cynnwys yn Grant y Swyddfa Gartref sy'n £503miliwn yn 2015-16. Heddlu Gogledd Cymru sydd â'r Treth Cyngor uchaf yng Nghymru a Lloegr, ond os byddai'r Grantiau Treth y Cyngor etifeddol hyn yn cael eu cymryd i ystyriaeth yna byddai Gogledd Cymru yn y 9fed safle.
- 5.5 Mae'r rheolau capio yn Lloegr wedi cael eu cyhoeddi, a phetai Treth y Cyngor yn cynyddu fwy na 2% yna byddai'n rhaid cynnal refferendwm.
- 5.6 Nid oes unrhyw reolau capio wedi'u cyhoeddi yng Nghymru. Nid oes Grant Gostyngiad yn Nhreth y Cyngor ar gael yng Nghymru.
- 6. Rhagolygon Cyllidebol a Gostyngiadau wedi'u Cynllunio ar gyfer 2015-16 i 2018-19**
- 6.1 Gwelir crynodeb o Ragolygon y Gyllideb a'r newidiadau ar gyfer 2013-14 a'r blynyddoedd i ddod yn Atodiad B.
- 6.2 Mae rhai o'r tybiaethau ar gyfer y blynyddoedd i ddod wedi cael eu diwygio fel y'i nodwyd uchod, a'r prif dybiaethau ydi:
- Chwyddiant blynyddol o 1% i gyflogau o fis Medi
 - Chwyddiant cyffredinol 2%, chwyddiant penodol wedi'i ddefnyddio ble'n hysbys (e.e. bydd taliadau systemau TG Cenedlaethol yn codi 22% yn 2015-16)

- Cynnydd o 3.44% yn Nhreth y Cyngor yn 2015-16; 3.5% yn 2016-17 a 2.5% yn 2017-18 a 2018-19
- Gostyngiadau grant o 5.1% yn 2014-15, a 4% yn y 3 blynedd ddilynol
- Bydd newidiadau i daliadau Yswiriant Gwladol yn 2016-17 yn ychwanegu £2.7miliwn arall at y bil cyflogau sy'n gyfwerth â thoriad pellach o 3.7% i'r grant.

